

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
Ffordd Llanbadarn
Llangawsai
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3QN**

Rhif yr Ysgol: 667/4048

Dyddiad yr Arolygiad: 3 - 7 Hydref 2005

gan

**Gareth Wyn Roberts
17166**

Dyddiad: 05 Rhagfyr 2005

Dan rif contract ESTYN T/036/04

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr Adroddiad.

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn o'r ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau'n rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar unrhyw un arall a wna gais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gyfun Penweddig rhwng 3 a 7 Hydref 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr Gareth Wyn Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- | | |
|----------------|---|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion rhagorol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	6
Crynodeb	8
Argymhellion	15
Safonau	16
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	16
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	23
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	23
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	27
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	31
Arweinyddiaeth a rheolaeth	36
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	36
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	38
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	40
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	42
Atodiadau	43
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	43
B Data a dangosyddion yr ysgol	44
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004	45
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad	50
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	51

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gyfun gymunedol ddynodedig ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol (AALI) Ceredigion yw Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth. Mae ynddi oddeutu 540 o ddisgyblion 11-16 oed a 120 o fyfyrwyr 16-18 oed.
2. Lleolir yr ysgol mewn adeiladau newydd (a agorwyd yn Ionawr 2001) ar safle yn Llangawsai, ger Llanbadarn Fawr, Aberystwyth nid nepell o'r safle a'r hen adeiladau blaenorol.
3. Mae amrywiaeth mawr yng nghefnidir economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y disgyblion. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys tref Aberystwyth (gan gynnwys ardal Cymunedau'n Gyntaf i dde orllewin y dref) ac ardal wledig eang y tu hwnt i'r dref. Mae gan 2% o'r disgyblion hawl i ginio am ddim eleni, sy'n arwyddocaol is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r holl ddisgyblion yn medru siarad Cymraeg. Mae rhai wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg tra bod y gweddill wedi derbyn addysg ddwyieithog. Daw ychydig dros 50% o'r disgyblion o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd. Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae un disgybl yng ngofal yr awdurdod lleol.
4. Sefydlwyd partneriaethau gyda'r coleg addysg bellach lleol, asiantaeth hyfforddi, masnachol, ysgol uwchradd arall yn y sir, yr Awdurdod Addysg Lleol, Llysgenhadaeth Siapan a sefydliad Eidalaidd sy'n darparu cyrsiau yng ngynnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.
5. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae naw (oddeutu 1.3%) ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r ganran ar gyfer Cymru a'r sir. Mae 137 o ddisgyblion (tua 21%) ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol ac ar y camau "gweithredu ysgol" a "gweithredu ysgol a mwy". Dadgymhwyswyd pedwar disgybl o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae datganiadau anghenion addysgol arbennig pedwar disgybl yn cynnwys addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
6. Penodwyd y pennaeth presennol i'r ysgol ym Medi 1989. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol yn ystod tymor yr Hydref 1999. Arolygiad byr, sef lle nad adroddir ar bynciau, oedd arolygiad yr ysgol.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2005-2006 yw:

- a) cadarnhau a chynyddu nifer y disgyblion;
- b) addysgu ac addysgu - cryfhau gweithredu ar sail prosesau hunan arfarnu;
- c) gweithredu'r cytundeb Baich Gwaith a Chodi Safonau ynghyd â'r gofynion Cyflogaeth newydd;
- ch) parhau i ddatblygu ymateb yr ysgol i 'Lwybrau dysgu 14-19', gan gynyddu'r opsiynau galwedigaethol yn fewnol yn yr ysgol ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

8. Targedau'r ysgol ar gyfer 2006 yw'r canlynol:

Cyfnod Allweddol	Pwnc ayb	% lefel 5 neu uwch yn CA3
Cyfnod Allweddol 3	Cymraeg	83
	Saesneg	86.9
	Mathemateg	88.6
	Gwyddoniaeth	87.0
	Dangosydd pynciau craidd	73.6

Cyfnod Allweddol 4	Dangosydd	Canran disgyblion
	Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - C	73.9
	Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - G	91.0
	Cyrraedd y dangosydd pynciau craidd	59.8
	Gadael heb gymhwyster	0
	% absenoldebau anawdurdodedig	1.6

Crynodeb

9. Mae Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig yn ysgol dda ag iddi nifer o ragoriaethau sy'n cynnwys:
- ansawdd da iawn canlyniadau arholiadau allanol TGAU, Uwch Atodol a Safon Uwch y disgyblion a'r myfyrwyr
 - cwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg
 - ethos gwâr, Cymreig a Chymraeg
 - ansawdd da'r gofal a'r arweiniad a rydd y staff cyfan i'r disgyblion a'r myfyrwyr.
10. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 1999. Er ei fod yn cytuno â llawer o'r barnau a fynegodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, mae'r tîm arolygu wedi rhoi gradd uwch i ddau gwestiwn allweddol.

Tabl y graddau a ddyfarnwyd

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd arolygu
1. Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu?	2
3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6. Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7. Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

12. Gan mai arolygiad byr a gafodd yr ysgol, nid arolygwyd safonau pynciol ac nid adroddir arnynt.

Ansawdd canlyniadau profion ac arholiadau allanol

13. Er bod peth anwastadrwydd yn y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfnod allweddol 3, lle nad yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched mewn iaith, mae'r ysgol yn parhau i gynnal ansawdd da iawn canlyniadau arholiadau a phroffion allanol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.
14. Gwna'r disgyblion gynnydd da iawn yng nghyfnod allweddol 4. Yr un modd, gwna'r myfyrwyr gynnydd da iawn yn y chweched dosbarth.
15. Mae canlyniadau'r ysgol mewn profion ac arholiadau cyhoeddus yn aml yn dda neu'n dda iawn o'u cymharu â rhai Cymru gyfan, Ceredigion a chanlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r cryfderau hyn yn fwy amlwg yng nghyfnod allweddol 4, lle mae cymariaethau gydag ysgolion sydd yn yr un grŵp, o safbwynt y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf. Yn 2005, cafodd pob disgybl yn B11 gymhwyster. Mae canlyniadau'r chweched dosbarth yn rhagoriaeth.

Safonau a arsylwyd yn y dosbarth.

16. Dengys y tabl isod safonau'r disgyblion a'r myfyrwyr yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach. Cyflawna'r disgyblion a'r myfyrwyr yr un safonau yn y medrau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Medr Allweddol	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Y Chweched Dosbarth
Siarad	2	2	1
Gwranddo	1	2	1
Darllen	1	1	1
Ysgrifennu	2	2	1
Rhifedd / Cymhwyso rhif	2	2	2
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3	2	2
Medr allweddol ehangach			
Datrys problemau	2	2	1
Gwella dysgu eu hunain	3	3	2
Cydweithio	1	1	1

17. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda, ac erbyn y chweched dosbarth mae safon hyfedr dwyieithrwydd y myfyrwyr yn rhagoriaeth.
18. Mae cynnydd y disgyblion a'r myfyrwyr yn eu dysgu yn dda yng nghyfnod allweddol 3 ac yn dda iawn yn CA4 a'r chweched dosbarth. Mae disgyblion o bob gallu yn caffael gwybodaeth a medrau newydd. Dal i ddatblygu mae eu deall o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella ac nid ydynt bob amser yn datblygu lefel uchel o annibyniaeth yn eu gwaith. Fel arall, maent yn datblygu medrau creadigol, personol, cymdeithasol a dysgu da iawn.

19. Gyda mân eithriadau, mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau gyda'u gwaith. Dangosant barch at farn a chredoau ei gilydd ac at ddaliadau pobl sy'n wahanol iddynt hwy.
20. Gyda rhai eithriadau, mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac ymddygiad y myfyrwyr yn dda iawn yn y dosbarth ac mae hyn yn creu amodau gwaith da. Mae eu hymddygiad o amgylch yr ysgol yn dda.
21. Roedd lefelau presenoldeb yn ystod y flwyddyn ysgol 2004 – 2005 (tua 90%) yn is na chanran presenoldeb y disgyblion yn yr arolygiad blaenorol ac yn is na'r targed a osodir ar ysgolion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef 92%. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, cyrhaeddodd yr ysgol darged y cynulliad ar gyfer canran presenoldeb, sef 92%.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant ac asesu

22. Cafodd ansawdd yr addysgu yn yr holl wersi ei farnu fel a ganlyn.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	58%	17%	4%	0%

23. Mae'r canrannau uchod yn rhagori ar y targedau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef bod ansawdd yr addysgu yn radd 3 neu well mewn 95% o wersi ac yn radd 2 neu well mewn 50% o wersi.
24. Ar ei orau, mae ansawdd yr addysgu yn un o ragoriaethau'r ysgol. Er hynny, mae anwastadrwydd yn ansawdd yr addysgu ar draws ac oddi mewn i bynciau yng nghyfnod allweddol 4.
25. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:
 - disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad, sy'n cymell a herio disgyblion unigol yn unol a'u hoedran, gallu a dealltwriaeth;
 - ffurfio perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion sy'n hybu'r dysgu;
 - sicrhau y caiff pob disgybl barch fel unigolyn gwaeth beth fo'i allu, rhyw, hil neu anabledd.
26. Yn ogystal, mae llawer o nodweddion da yn cynnwys:
 - cynllunio effeithiol sy'n gosod amcanion eglur y mae'r disgyblion yn eu deall;
 - gwybodaeth bynciol drylwyr;
 - defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau dysgu sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol y disgyblion;
 - cwrdd ag anghenion ieithyddol y disgyblion, gan gynnwys cynnig darpariaeth addysgu ddwyieithog.

27. Mewn ychydig o wersi mae rhai diffygion, megis:
- athrawon yn cael trafferth cynnal diddordeb a chwilfrydedd disgyblion ar bob achlysur;
 - diffyg cyfle digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol;
 - athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig, a chyfleoedd prin i ddisgyblion i ofyn cwestiynau.

Asesu

28. Bodlona'r ysgol ofynion statudol ar gyfer asesu yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a chydymffurfir â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion addysgu ychwanegol. Mae'r gweithdrefnau ysgol gyfan a'r trefniadau safoni o fewn adrannau yn sicrhau cysondeb wrth asesu profion, arholiadau a gwaith cwrs.
29. Caiff gwaith ei farcio'n gywir a chyson ond mewn nifer arwyddocaol o achosion nid yw'r marcio yn dangos i ddisgybl sut i wella ei waith. Mae anghysondeb yn y defnydd a wna'r adrannau o asesu fel arf i wella'u dysgu ac nid yw sgiliau hunan asesu'r disgyblion yn ddigonol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn y chweched dosbarth, mae gan y myfyrwyr syniad da o sut i asesu eu gwaith.
30. Caiff rhieni a gofalgwyr un adroddiad ar ddiwedd blwyddyn academaidd a chyfle i dderbyn adborth ar gynnydd eu plant mewn noson rieni. Ysgrifenna'r athrawon sylwadau unigol ar waith y disgyblion ac, o'r herwydd, mae'r adroddiadau'n rhai personol. Maent yn amrywio, fodd bynnag, ym manylder y sylwadau a gynigir ac yn ansawdd a pherthnasedd y targedau a osodir ar gyfer gwella.

Y profiadau dysgu

31. Mae profiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagoriaeth. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dda iawn; maent yn manteisio ar gwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg. Cyfoethogir llawer o brofiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn arwyddocaol drwy'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir yn yr ysgol a thu allan. Daw'r disgyblion a'r myfyrwyr i ddysgu llawer am fyd gwaith.
32. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag ysgolion cynradd lleol, ysgol uwchradd arall yn y sir, y colegau addysg bellach ac uwch lleol, a'r gymuned ehangach, gan gynnwys cyflogwyr lleol, Gyrfa Cymru, cwmni hyfforddiant masnachol a'r awdurdod addysg lleol. Mae ganddi gysylltiadau da gyda rhieni sy'n cyfrannu'n hael i goffrau'r ysgol.

Y gynhaliaeth a dderbynia'r disgyblion a myfyrwyr

33. Mae gan yr ysgol bolisiau cyfle cyfartal priodol a threfn glir sy'n cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bawb a chyfle da iddynt gyflawni eu potensial. Mae effeithiolrwydd y strategaeth cynhwysiad cymdeithasol ac ansawdd y gefnogaeth fugeiliol ac academaidd a gynigia'r holl staff yn nodweddiadol rhagorol.

34. Sefydlodd yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau i geisio sicrhau lefel presenoldeb uchel. Cymhlethwyd y sefyllfa yn ystod y flwyddyn 2004 – 2005 gan broblemau yn ymwneud â'r drefn gofnodi presenoldeb. Adolygwyd y rhain yn ofalus, a bellach mae gweithdrefnau newydd yn eu lle.
35. Mae gan yr ysgol drefn effeithiol i ddathlu cyflawniadau academaidd a bugeiliol y disgyblion a'r myfyrwyr, y tu mewn a thu allan i'r ysgol.
36. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a'r myfyrwyr yn dda iawn.
37. Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau effeithiol i ymdrin ag ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.
38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol yn rhagoriaeth. Mae'r ddarpariaeth hon yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r cynlluniau addysg unigol a baratoir ar gyfer y disgyblion hyn yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ar yr hyn y mae angen i'r disgyblion ei wneud er mwyn cyflawni eu targedau.

Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol

39. Mae nodau ac amcanion yr ysgol wedi eu seilio ar werthoedd o gyd - barch a chyd - werth. Mae gweledigaeth ac arweiniad y pennaeth yn sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn sylfaen i weithrediad polisiâu'r ysgol o ddydd i ddydd.
40. Mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn rhagorol ac yn cyfrannu'n sylweddol at fonitro ac arfarnu, cynllunio a chyflwyno newid a chreu hinsawdd o ofal a chefnogaeth i'r disgyblion a'r myfyrwyr.
41. Mae'r rheolwyr canol yn arwain a rheoli eu hadrannau'n effeithiol, gan arfarnu eu gwaith yn dda ac yn cynllunio'n strategol ar gyfer ei wella.
42. Mae gan yr ysgol weithdrefnau da i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae'n bodloni'n llwyr y gofynion statudol o ran cydraddoldeb hiliol, anableded a disgyblion sydd mewn gofal.
43. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr iawn i fonitro perfformiad y staff. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i lunio'r rhaglen ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio'n effeithiol gyda'r rheolwyr canol i gyflawni'r targedau perfformiad adrannol. Ni lwyddodd y gweithdrefnau rheolaethol, fodd bynnag, i sicrhau bod holl flaenoriaethau ysgol gyfan yn cael eu gweithredu'n gyson ac ni sicrhawyd bod yr arferion da a welir mewn rhai adrannau yn cael eu gweithredu drwy'r ysgol.
44. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n rhagorol.

Ansawdd hunan arfarnu

45. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn mynd i'r afael, yn wrthrychol a theg, â saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae'r ysgol wedi darparu barn gyffredinol ac wedi nodi nodweddion da a rhagorol, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae ffynonellau tystiolaeth yn cael eu nodi yn yr adroddiad ond ni ddyfynnir yn fanwl o'r ffynonellau hyn i gyfiawnhau barn neu radd yn yr adroddiad.
46. Mae arsylliadau uniongyrchol, y prosesau adolygu adrannol, monitro hanner tymhorol a phrosesau monitro adrannol, yn cyfrannu'n dda iawn at ymwybyddiaeth rheolwyr o'u meysydd cyfrifoldeb.
47. Caiff canlyniadau profion ac arholiadau eu dadansoddi'n drylwyr, a'u defnyddio i ddatblygu cryfderau ac i wella unrhyw wendidau. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau i sicrhau atebolrwydd adrannau am ganlyniadau a pherfformiad wedi eu llawn ddatblygu.
48. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar brosesau ymgynghori llawn, ar bob lefel yn yr ysgol, yn sicrhau bod y staff yn perchnogi'r trefniadau arfarnu a'u canfyddiadau. Mae'r ysgol yn ymgynghori'n llawn gyda rhieni wrth arfarnu rhai agweddau o'i gwaith. Serch hynny, nid oes trefniadau rheolaidd a systematig i ganfod barn rhieni na barn eraill sydd â diddordeb.

Y defnydd o adnoddau

49. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau da ym mhob maes o'r cwricwlwm. Caiff yr athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w prif faes gynhaliadau dda. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cefnogi'r athrawon a'r disgyblion yn dda iawn.
50. Mae'r adnoddau ar gyfer addysgu'n dda. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau o ansawdd da i alluogi'r athrawon i addysgu a'r disgyblion a'r myfyrwyr, yn eu tro, i ddysgu'n effeithiol. Mae gan yr ysgol rwydwaith gyfrifiadurol ysgol gyfan ac mae'r gymhareb yn un cyfrifiadurol i bob chwe disgybl. Serch hynny, erys prinder offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ymateb yn ddigonol i'r galw cynyddol oddi wrth athrawon pwnc i'w ddefnyddio.
51. Mae ansawdd yr adeiladau'n rhagorol a chânt eu cynnal a'u cadw'n dda gan y cwmni masnachol sy'n berchen arnynt. Mae'r bartneriaeth waith dda a sefydlwyd rhwng yr ysgol a'r cwmni yn caniatáu iddynt gyd-drafod materion sy'n codi o dro i dro, megis ethos Cymraeg yr adeilad.
52. Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae'r cynllunio ariannol, y gweinyddu a'r rheoli yn gryfderau arwyddocaol. Serch hynny, yn y flwyddyn ariannol gyffredol penderfynodd y Corff Llywodraethu, gyda chefnogaeth yr Awdurdod Unedig, fabwysiadu cyllideb oedd yn caniatáu diffyg cynlluniedig o £47,000, er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol. Nid yw hyn yn cael ei gydnabod fel arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio.

53. Mae ansawdd da canlyniadau profion ac arholiadau allanol, safonau da cyflawniad ac ymddygiad y disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd dda iawn a gofal da iawn y disgyblion a'r myfyrwyr, yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

- A1. gynnal y safonau da a da iawn a gyflawnwyd, gan roi sylw arbennig i godi safonau hunan asesu ac annibyniaeth y disgyblion, a safonau iaith bechgyn yng nghyfnod allweddol 3;*
- A2. gynyddu presenoldeb a sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi'n gyflawn;*
- A3. sicrhau bod gweithdrefnau rheolaethol yn arwain at fwy o gysondeb ar draws adrannau, yn enwedig o ran gwella a chysoni ansawdd yr addysgu ac asesu er mwyn gwella'r dysgu;
- A4. barhau i hyrwyddo hunan asesu'r disgyblion fel arf i hyrwyddo'r addysgu a dysgu ac i godi safonau; *
- A5. barhau i ddatblygu hunan arfarnu ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel adrannol, gan gynnwys adeiladu ar y broses ymgynghori a sefydlwyd gyda'r rhai sydd â diddordeb yn yr ysgol.*

* Mae'r Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer 2005-2006 neu Ddogfen Hunan Arfarniad yr ysgol yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am addasu ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad hwn, gan ddangos beth mae'r ysgol yn mynd i'w wneud ynglŷn â'r argymhellion. Anfonir y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

54. Yn yr adroddiad hunan arfarnu rhoddodd yr ysgol Radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â rhai'r ysgol.

Safonau

55. Gan mai arolygiad byr a gafodd yr ysgol, nid arolygwyd safonau pynciol ac nid adroddir arnynt.

Llwyddiant o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig

Y safonau yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol estynedig Cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

56. Dengys y tabl isod safonau'r disgyblion yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach. Cyflawna'r disgyblion yr un safonau yn y medrau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Medr Allweddol	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4
Siarad a gwrando	2	2
Gwrando	1	2
Darllen	1	1
Ysgrifennu	2	2
Rhifedd / Cymhwyso rhif	2	2
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3	2
Medr allweddol ehangach		
Datrys problemau	2	2
Gwella dysgu eu hunain	3	3
Cydweithio	1	1

57. Mae safonau iaith lafar y disgyblion yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mwyafrif helaeth yn hyderus ar lafar. Ar eu gorau, holant yn fedrus ac ymatebant yn estynedig. Ar adegau, fodd bynnag, mae eu hymatebion yn fyr. Mae'r disgyblion yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac ar ei gilydd yng nghyfnod allweddol 3 a gwrandawant yn dda yng nghyfnod allweddol 4. Mae safonau darllen yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae hyn yn cynnwys darllen ar goedd a darllen er pleser. Mae safonau ysgrifennu yn dda. Erys rhai gwallau iaith yn yr ysgrifennu yn y ddau gyfnod allweddol.

58. Mae'r disgyblion yn mesur, cyfrifo a chymhwyso rhif yn dda.
59. Mae safonau cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio cyfrifiaduron yn rhagoriaeth ar draws nifer arwyddocaol o bynciau yng nghyfnod allweddol 3 a 4. Er hynny, elfennol yw gallu'r disgyblion i drin gwybodaeth a modelu yng nghyfnod allweddol 3. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, lle mae'r holl ddisgyblion yn manteisio'n dda ar wersi penodol mewn technoleg gwybodaeth fel pwnc, mae safonau trin gwybodaeth a modelu hefyd yn dda.
60. Mae gallu'r disgyblion i gydweithio'n rhagoriaeth a'u gallu i ddatrys problemau'n dda. Dal i ddatblygu mae'u gallu i wella eu dysgu eu hunain. Mae'r safonau yn y tair medr allweddol estynedig yn gwneud cyfraniad at y medrau y bydd y disgyblion eu hangen gydol eu hoes.

Canlyniadau arholiadau a phroffion allanol cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

Cyfnod Allweddol 3

61. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ganlyniadau cyfansawdd bechgyn a merched ym mhroffion cyfnod allweddol 3 yn ystod y cyfnod 2002 hyd at 2004 yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn ogystal, mae'n dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd ar gyfer cyfnod allweddol 3 (sef yn cyrraedd lefel 5 neu well mewn naill ai Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth).
62. Gan nad yw'r Gymraeg yn bwnc craidd yn holl ysgolion Cymru, ni wneir cymariaethau yn erbyn ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canlyniadau'r ysgol ym mhroffion Cymraeg cyfnod allweddol 3 wedi bod yn dda iawn.

Blwyddyn	2002	2003	2004
Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu well mewn Saesneg yn y profion	75.9	76.9	79.8
Chwartel meincnodi	3	2	2
Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu well mewn mathemateg yn y prawf	82.8	78.8	85.1
Chwarteli meincnodi	1	3	2
Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu well mewn gwyddoniaeth yn y prawf	88.8	83.7	89.5
Chwarteli meincnodi	1	2	2
Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd yn y profion	74.1	71.2	77.2
Chwarteli meincnodi	1	2	1

63. Pan fo'r canlyniadau'n cael eu cymharu â chanlyniadau Cymru maent yn dda. Pan ystyrir y canlyniadau ochr yn ochr ag ysgolion tebyg o safbwynt cinio am ddim, gwelir bod anwastadrwydd yng nghanlyniadau'r ysgol o flwyddyn i flwyddyn a hefyd, ar adegau, o bwnc i bwnc. Mae canlyniadau'r ysgol yn syrthio yn y chwarter uchaf (1), uwchlaw'r canolrif (2) ac islaw'r canolrif (3).
64. Yn 2005, cyrhaeddodd 70% o'r bechgyn a 81% o'r merched lefel 5 neu well ym mhroffion cyfnod allweddol 3 yn y Gymraeg. Yr un flwyddyn, cyrhaeddodd 64% o'r bechgyn a 86% o'r merched lefel 5 yn y profion Saesneg. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r gwahaniaeth arwyddocaol hwn rhwng safonau bechgyn a merched ac yn rhoi blaenoriaeth i wella safonau iaith y bechgyn.
65. Ym mathemateg, cyrhaeddodd 78% o'r bechgyn a 86% o'r merched lefel 5 neu well yn 2005. Yr un modd, cyrhaeddodd 76% o'r bechgyn a 84% o'r merched lefel 5 neu well yng ngwyddoniaeth.
66. Nid yw data meincnodol 2005 wedi ei gyhoeddi eto. Yn hanesyddol, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn gyson yn y chwarter uchaf.

Cyfnod Allweddol 4

67. Mae ansawdd canlyniadau arholiadau cyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn dda iawn, er na fu canlyniadau TGAU llawn cystal yn 2005 ag yn 2004. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 yn llawer uwch na chanran Cymru a chanran y sir. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn chwarter uchaf ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i bryd am ddim yn y dangosydd hwn.
68. Mae canran y disgyblion sy'n ennill gradd A* - G mewn pum pwnc yn uwch na chanran Cymru a Cheredigion. Mae canran y disgyblion sy'n ennill gradd A* - C mewn pump neu fwy o bynciau wedi gosod yr ysgol yn chwarter uchaf ysgolion tebyg Cymru ac mae hyn yn rhagoriaeth. Mae'r sgôr cyfartalog yn arholiadau TGAU, sy'n seiliedig ar ansawdd canlyniadau disgyblion unigol yn eu holl bynciau, wedi gosod yr ysgol yn chwarter uchaf ysgolion tebyg ers cychwyn cyhoeddi'r data cymharol yn 2002. Mae hyn yn rhagoriaeth ddiamwys. Yn 2005, enillodd pob disgybl B11 gymhwyster.

Safonau yn y chweched dosbarth

69. Mae'r ganran argadw, sef canran y disgyblion sy'n parhau gyda'u cwrs addysg ôl 16 yn uchel iawn. Mae'r ganran sy'n dychwelyd yn fyfyrwyr yn y chweched dosbarth (72%), hefyd yn uchel iawn. Adlewyrcha hyn ddymuniad y myfyrwyr i barhau gyda'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd y ffaith bod yr amrediad o cyrsiau a gynigia'r ysgol yn y chweched dosbarth yn cyd-fynd â dyheadau'r myfyrwyr. Bron yn ddiethriad, mae'r myfyrwyr sy'n dechrau eu cwrs safon Uwch Gyfrannol yn B12 yn parhau gyda'u cwrs addysg yn B13.

Canlyniadau arholiadau allanol yn y chweched dosbarth

70. Mae canlyniadau Safon Uwch yr ysgol yn rhagoriaeth. Mae canran y myfyrwyr sy'n ennill gradd A - C ac A - E yn sylweddol uwch na chanrannau Cymru. Mae sgôr cyfartalog y myfyrwyr yn eu harholiadau (sy'n seiliedig ar y graddau a gawsant) wedi bod yn gyson arwyddocaol uwch na rhai'r sir a rhai Cymru ers tair blynedd o leiaf. Mae canran y myfyrwyr sy'n ennill gradd A yn yr arholiadau Safon Uwch yn 2005 mewn ystod eang o bynciau yn rhagoriaeth.

Safonau myfyrwyr y chweched dosbarth yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach.

71. Dengys y tabl isod safonau'r myfyrwyr yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach. Cyflawna'r myfyrwyr yr un safonau yn y medrau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Medr Allweddol	Y Chweched Dosbarth
Siarad a gwrando	1
Darllen	1
Ysgrifennu	1
Rhifedd / Cymhwyso rhif	2
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	2
Medr allweddol ehangach	
Datrys problemau	1
Gwella dysgu eu hunain	2
Cydweithio	1

72. Mae safonau iaith lafar y myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda iawn. Mae'r myfyrwyr yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae safonau darllen ac ysgrifennu yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.
73. Mae'r myfyrwyr yn mesur, cyfrifo a chymhwyso rhif yn dda.
74. Oddi mewn i dechnoleg gwybodaeth, mae safonau cyflwyno gwybodaeth a modelu'n dda. Mae safonau trin gwybodaeth hefyd yn dda gyda gwaith ymchwiliol ar y We yn gryfder.
75. Mae safonau datrys problemau'r myfyrwyr a hefyd eu gallu i gydweithio yn rhagorol. Gwyddant sut i wella eu dysgu eu hunain er nad oes ganddynt, yn aml, dargedau penodol i anelu atynt. Mae'r safonau uchel yn y tri medr allweddol ehangach yn cyfrannu'n arwyddocaol at y sgiliau y bydd y myfyrwyr eu hangen gydol eu hoes.
76. Mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi presenoldeb y myfyrwyr yn debyg i weddill yr ysgol ac mae eu presenoldeb yn cael ei gofnodi. Mae'r drefn yn sicrhau bod myfyrwyr yn bresennol yn yr ysgol i dderbyn eu gwersi.

Sylwadau pellach ar safonau disgyblion a myfyrwyr yr ysgol

Safonau hyfedredd dwyieithog disgyblion a myfyrwyr

77. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Gyda'r aeddfedrwydd a ddaw yn y chweched dosbarth, mae safonau dwyieithrwydd y myfyrwyr yn rhagorol erbyn diwedd y cyfnod hwn. Er mai Cymraeg yw prif gyfrwng gwersi (heblaw am Saesneg fel pwnc a dewis o gyfrwng mewn gwyddoniaeth a mathemateg) drwy'r ysgol, gall y disgyblion a'r myfyrwyr drawsieithu'n dda iawn o un iaith i'r llall. Yn aml, mae termau arbenigol yn y ddwy iaith yn gyfarwydd iddynt.

Safonau cyflawniad disgyblion a myfyrwyr

78. Mae disgyblion a myfyrwyr o bob gallu, beth bynnag bo eu rhyw, cefndir cymdeithasol neu ieithyddol, yn cyflawni'n dda neu'n dda iawn. Mae'r safonau a gyflawna disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda. Cyflawna disgyblion galluog a dawnus yn dda iawn. Serch hynny, mae gwahaniaeth trawiadol rhwng canlyniadau merched a bechgyn ym mhroffion Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 3 yn 2005. Mae'r ysgol yn gweithredu strategaeth i geisio sicrhau bod y bechgyn yn cyflawni cystal â'r merched mewn iaith yn y cyfnod allweddol hwn.

Cynnydd y disgyblion a'r myfyrwyr wrth ddysgu

79. Mae cynnydd y disgyblion yn eu dysgu yn dda yng nghyfnod allweddol 3 ac yn dda iawn yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae disgyblion a myfyrwyr o bob gallu yn caffael gwybodaeth a medrau newydd.
80. Dal i ddatblygu mae deall disgyblion cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Nid ydynt bob amser yn datblygu lefel uchel o annibyniaeth yn eu gwaith. Fel arall, maent yn datblygu medrau creadigol, personol, cymdeithasol a dysgu da iawn.
81. Mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn ymwybodol o'u lefelau cyflawniad yn y pynciau. Cânt syniad da o'u cyflawniadau yn dilyn asesiadau'r athrawon ac maent yn ymwybodol o feini prawf asesiadau ac arholiadau allanol. Mae'r disgyblion yn dal i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio targedau personol i wella eu cyflawniad. Erbyn y chweched dosbarth, mae'r gallu hwn wedi datblygu'n dda a'r myfyrwyr yn aml yn gosod targedau personol anffurfiol eu hunain.
82. Mae'r disgyblion yn cyflawni'n ddigon da i adael yr ysgol gyda'r cymwysterau naill ai i ennill swydd yn 16 oed neu i gael mynediad i gwrs addysg bellach. Ni adawodd yr un disgybl yr ysgol yn ddigymhwyster yn 2005. Yn ogystal, mae canran uchel yn dewis dilyn cyrsiau yn y chweched dosbarth. Mae'r myfyrwyr sy'n gadael yr ysgol ar ôl cwblhau cwrs Safon Uwch yn derbyn lle yn y brifysgol neu'r coleg o'u dewis. Mae nifer arwyddocaol ohonynt, dros y blynyddoedd, wedi ennill ysgoloriaethau i golegau Prifysgol Cymru a mynediad i Rydychen, Caergrawnt neu golegau meddygol.

Ymddygiad

83. Mae ymddygiad y disgyblion a'r myfyrwyr yn dda. Mewn awyrgylch hapus, mae'r disgyblion a'r myfyrwyr hŷn yn cydweithio'n effeithiol ac yn parchu ei gilydd, eu hathrawon, ymwelwyr a'u hamgylchfyd. Mae mwyafrif helaeth rhieni'r ysgol yn canmol safonau ymddygiad.
84. Mae'r berthynas hapus rhwng athrawon a disgyblion yn hyrwyddo dysg yn y dosbarth. Mae mesurau megis y drefn hybu ymddygiad, amser cylch a mentoriaid o blith cyfoedion, yn atgyfnerthu'r safonau da.
85. Lle nad yw unigolion yn cwrdd â'r safonau a'r disgwyliadau uchel, mae cymorth asiantaethau allanol a threfniadau goruchwylio mewnol yn cael effaith gadarnhaol.
86. Ni fu gwaharddiad parhaol ers mwy na dwy flynedd ac isel yw nifer y gwaharddiadau dros dro. Deliwyd yn briodol â'r rhain.
87. Tystia disgyblion a'u rhieni fod yr ysgol yn ymateb yn gyflym i unrhyw ymddygiad annerbyniol.

Presenoldeb a Phrydlondeb

88. Gostyngodd presenoldeb ers yr arolygiad diwethaf. Mae ychydig yn is na'r cyfartaledd sirol a tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru.
89. Cafwyd anawsterau gweinyddol wrth gofnodi presenoldeb yn ystod blwyddyn academiaidd 2004-05. Nid yw peth o'r ystadegau a gasglwyd yn gyson â phatrwm arferol yr ysgol dros gyfnod hwy. Roedd y canrannau absenoldeb anawdurdodedig a gofnodwyd, er enghraifft, yn sylweddol uwch nag arfer.
90. Gostyngodd y canrannau presenoldeb a gofnodwyd yn 2004-05 oherwydd bod nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn absennol am gyfnodau hir oherwydd salwch a ffactorau cefndirol eraill. Mae rhai rhieni'n mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor.
91. Mae ffigurau presenoldeb y chweched dosbarth yn rheolaidd is na 90%.
92. Cyrhaedda rhai disgyblion yn ystod, neu wedi'r cyfnod cofrestru. Mewn rhai dosbarthiadau, dechreuau'r cofrestru boreol wedi'r amser penodedig fel nad oes amser i fanteisio'n llawn ar elfen fugeiliol y cyfnod hwn.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu

93. Mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau gyda'u gwaith. Mae eu cymhelliant i lwyddo yn uchel, beth bynnag fo'u gallu neu gefndir cymdeithasol. Prin yw'r enghreifftiau lle nad yw'r rhinweddau hyn yn amlwg.

94. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn dal i ddatblygu. Mae safonau gweithio'n annibynnol yn dda yn y chweched dosbarth. Adlewyrcha hyn safonau uchel mewn datrys problemau a sgiliau ymchwilol.
95. Mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn dangos parch, gofal a phryder am eraill yn y gymuned leol a thu hwnt. Maent yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith ac maent yn dangos gonestrwydd a thegwch yn eu hymwneud ag eraill.
96. Dengys y disgyblion a'r myfyrwyr barch at farn a chredoau ei gilydd ac at ddaliadau pobl sy'n wahanol iddynt hwy. Maent yn cydnabod, deall a pharchu amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r gwerthoedd hyn yn rhagorol.
97. Mae nifer dda iawn o gyfleoedd ar draws yr ystod oedran i ddisgyblion ymgyfarwyddo â byd gwaith a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.
98. Cyflwynwyd cyrsiau megis peirianeg a gofal plant i adlewyrchu dyheadau disgyblion a chynyddu eu cymhelliant. Mae tua hanner disgyblion cyfnod allweddol 4 yn dilyn cyrsiau galwedigaethol lle treuliant gyfnod yn y gweithle. Mae canran uwch o ddisgyblion B10 nag o rai B11 yn rhan o'r trefniadau hyn.
99. Canmola disgyblion y ddarpariaeth alwedigaethol a gynigir gan y Cwmni Gyrfa.
100. Mae adrannau megis cerdd ac addysg gorfforol yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio a chystadlu'n lleol, sirol a chenedlaethol, gan feithrin eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu. Mae'r rhieni'n canmol y cyfleoedd hyn.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

101. Yn yr adroddiad hunan arfarnu, rhoddodd yr ysgol Radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â rhai'r ysgol.
102. Dengys y tabl isod ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	58%	17%	4%	0%

103. Dengys y tabl hwn bod 79% o'r gwersi o ansawdd gradd 2 neu radd 1. Mae hyn yn rhagorol. Mae'r ysgol felly yn cyrraedd yn rhwydd y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysgu, sef y dylai ansawdd yr addysgu fod yn Radd 2 o leiaf mewn 50% o wersi.
104. Mewn 17% o wersi, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion ac mewn 4% arall mae nodweddion da i'r addysgu, ond mae rhai diffygion mewn meysydd pwysig. Mae'r ysgol felly yn cyrraedd yr ail darged a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysgu, sef y dylai ansawdd yr addysgu fod yn Radd 3 o leiaf mewn 95% o wersi.

Cyfnod Allweddol 3 a 4

105. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 mae ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

CA3	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	30%	56%	11%	3%	0%

106. Mae ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn radd 1 neu radd 2 mewn 86% o'r gwersi sy'n ganran uchel iawn.

CA4	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	6%	56%	33%	5%	0%

107. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4 mae canran uwch o wersi gradd 3. Anwastad yw ansawdd yr addysgu, ar draws, ac oddi fewn i'r pynciau yn y cyfnod allweddol hwn.

108. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:
- disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad, sy'n cymell a herio disgyblion unigol yn unol â'u oedran, gallu a dealltwriaeth;
 - perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion sy'n hybu'r dysgu;
 - sicrhau y caiff pob disgybl barch fel unigolyn waeth beth fo'i allu, rhyw, hil neu anabledd.
109. Yn ogystal mae llawer o nodweddion da yn cynnwys:
- gwybodaeth bynciol drylwyr;
 - cynllunio effeithiol sy'n gosod amcanion eglur y mae'r disgyblion yn eu deall;
 - defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau dysgu sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion;
 - cwrdd ag anghenion ieithyddol y disgyblion, gan gynnwys cynnig darpariaeth addysgu dwyieithog.
110. Mewn ychydig o wersi mae rhai o'r diffygion canlynol:
- collir cyfleoedd i ddatblygu cysyniadau pynciol;
 - nid yw diddordeb a chwilfrydedd disgyblion yn cael eu cynnal ar bob achlysur,
 - nid oes cyfle i ddisgyblion weithio'n annibynnol;
 - amseriad araf i'r gwaith a dim clo pendant i'r wers;
 - athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig, a phrin yw'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ofyn cwestiynau.
111. Ychydig iawn o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a welwyd i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu yn ystod yr arolygiad.
112. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael eu haddysgu'n dda iawn. Mae gan fwyafrif helaeth yr athrawon wybodaeth drylwyr am y disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol ac maent yn darparu yn addas ar eu cyfer.
113. Mae'r staff addysgu yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gynnal, sef yr adran sy'n cefnogi disgyblion a myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu. Mae'r arweinwyr pwnc yn gwneud defnydd da o dargedau'r cynlluniau unigol addysg a ddarperir ar gyfer y disgyblion hyn.

Pa mor drylwyr yw'r asesu a sut caiff ei ddefnyddio i gynllunio a gwella dysgu

114. Mae cyfundrefn asesu'r ysgol yn dangos cryfderau sy'n gorbwyso diffygion.
115. Anghyson yw'r arferion asesu, ar draws, ac oddi fewn pynciau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig wrth i'r athrawon gynnig adborth ysgrifenedig i'r disgyblion ac wrth iddynt ddefnyddio asesu ar gyfer hybu dysgu. Mae gallu disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain hefyd yn anghyson ac yn aml yn annigonol.

116. Mae gan yr ysgol bolisi asesu clir a rhoddir arweiniad cadarn i wella cymhelliant a dysgu disgyblion. Er hynny, nid yw'r adran o'r polisi'r ysgol sy'n ymwneud ag "asesu ar gyfer dysgu" yn llwyr weithredol hyd yma.
117. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3, ynghyd â rheoliadau'r byrddau arholi yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Cydymffurfir â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion addysgu ychwanegol.
118. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n gywir ac yn gyson, ond mewn nifer arwyddocaol o achosion nid yw'r marcio yn cynnig atborth i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Serch hynny, mae ansawdd yr adborth a gynigir gan rai adrannau unigol yn dda neu'n dda iawn.
119. Nid yw'r disgyblion bob amser yn deall diben asesu fel rhan allweddol o'r broses gynllunio a gwella cynnydd.
120. Nid oes cyfle i ddisgyblion gyfrannu eu sylwadau eu hunain ar yr adroddiadau.
121. Nid oedd cysondeb o ran ffurf yn yr adroddiadau blynyddol a ddisbarthwyd yn ystod tymor yr haf. Mae targed i wella yn cael ei osod ar bob adroddiad, ond anwastad yw ansawdd a miniogrwydd y targedau hyn. Yn ddiweddar, bu'r ysgol yn adolygu'r drefn adrodd i rieni. O ganlyniad, dyfeisiwyd fformat cyffredin ar draws bob blwyddyn a ddefnyddir am y tro cyntaf yn 2006.

Y Chweched Dosbarth

122. Mae'r addysgu yn y chweched dosbarth yn dda, gyda nodweddion rhagorol.
123. Dengys y tabl isod ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn y chweched dosbarth (8 gwersi).

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
25%	75%	0%	0%	0%

124. Mae cryfder amlwg yn ansawdd addysgu'r chweched dosbarth; mae nodweddion rhagorol a da ym mhob gwersi a arsylwyd a dim diffygion pwysig.
125. Nodweddion rhagorol yr addysgu yn y chweched dosbarth yw:
- disgwyliadau uchel iawn, lle caiff myfyrwyr eu hannog i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol;
 - perthynas waith adeiladol iawn rhwng yr athrawon a'r myfyrwyr;
 - gwybodaeth bynciol drylwyr a chyfoes gan yr athrawon;
 - cyfleoedd i'r myfyrwyr werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith myfyrwyr eraill yn adeiladol;
 - cefnogaeth effeithiol a pharatoad trylwyr ar gyfer anghenion arholiadau allanol.

126. Nodweddion yr addysgu da yw:

- gwersi wedi eu cynllunio'n dda gydag amcanion clir a pharhad o un wers i'r nesaf;
- holi treiddgar a chyfle i bawb ymateb;
- yr esbonio a'r arddangos yn eglur a phwyllog;
- amseriad da i wersi a gweithgareddau;
- defnydd o ystod dda o dechnegau addysgu a thasgau amrywiol sy'n arwain y myfyrwyr i astudio'r gwaith yn ddyfnach.

127. Mae'r asesu ffurfiol ac anffurfiol yn y chweched dosbarth yn adeiladol. Rhydd yr athrawon arweiniad clir i'r myfyrwyr ar sut i wella safon y gwaith a chyflawni eu potensial.

128. Gwna'r athrawon ddefnydd da o gwestiynu fel arf i hybu asesu ac i fesur dealltwriaeth a dyfnder gwybodaeth y myfyrwyr.

129. Nid oes adroddiad ffurfiol ar gyfer rhieni myfyrwyr y chweched. Serch hynny, mae trefn effeithiol lle mae'r athrawon yn nodi mewn llyfryn, sy'n gyson ym meddiant y myfyrwyr, negeseuon a sylwadau ar gyfer rhieni. Mae'r llyfryn yn cynnwys sylwadau gan athrawon a myfyrwyr. Mae cyfle i rieni ymateb. Mae'r ddogfen yn sail i drafodaeth yn y noson rieni.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

130. Dyfarnodd y tîm arolygu Radd 1 i'r ysgol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn sy'n uwch na'r un a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hunan arfarniad, sef Gradd 2. Adlewyrcha hyn y nifer o ragoriaethau yn y profiadau dysgu mae'r ysgol yn eu darparu.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr

131. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion dysgu a dyheadau disgyblion ar draws yr ystod gallu ac sy'n bodloni gofynion Deddf Addysg 1996 ar gyfer disgyblion oedran statudol. Yn ogystal, cydymffurfir â gofynion manylebau byrddau arholi.
132. Mae'r ysgol yn darparu mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a ddatgymwyswyd yn briodol ac yn unol â'u datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Cyflawna'r ysgol y gofynion statudol o ran addysg grefyddol a disgwyliadau cyfredol maes llafur cytûn y Cyngor Sefydlog Addysg Grefyddol lleol.
133. Caiff disgyblion cyfnod allweddol 4 a myfyrwyr y chweched dosbarth gyfle i ennill amrediad da iawn o gymwysterau.
134. Mae trefniadaeth y cwricwlwm yn sicrhau dilyniant a pharhad rhwng blynyddoedd a chyfnodau allweddol, ynghyd â chymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen. Cyfranna hyn at safonau cyflawniad da iawn. Mae'r dilyniant a pharhad cwricwlaidd, bugeiliol ac ieithyddol effeithiol rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 yn deillio o'r cydweithio da sydd rhwng athrawon yr ysgol hon a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.
135. Caiff cwricwlwm B9 ei gyfoethogi trwy gynnig cyfle i ddisgyblion astudio ail iaith fodern, drama neu grefftau. Yn y chweched dosbarth, cynigir cyfle i fyfyrwyr astudio cwrs 'Siapanaeg ar gyfer cyfathrebu bob dydd'. Mae cwrs TGAU Eidaleg yn agored i bob disgybl a myfyriwr.
136. Mae darparu rhaglen o wersi addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn flaenoriaeth uchel. Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr yn ymateb yn llawn i holl ofynion y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac yn nodwedd ragorol o ddarpariaeth gwricwlaidd yr ysgol. Mae cyfraniadau'r pynciau a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol trwy'r ysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth hon.

137. Cynllunio'r ysgol yn dda i ddatblygu'r medrau allweddol, y medrau sylfaenol a'r medrau allweddol ehangach ar draws holl bynciau'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 a 4. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y pynciau yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. Caiff cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng nghyfnod allweddol 3 eu cyfyngu gan ddiffyg offer logio. Yng nghyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn dilyn cwrs TGAU byr mewn technoleg gwybodaeth ac maent yn cyflawni safonau da iawn. Mae'r sylw cyfredol mae'r ysgol yn ei roi i ddatblygu methodoleg addysgu ar draws y pynciau yn hyrwyddo datblygiad medrau allweddol ehangach y disgyblion, megis eu gallu i ddatrys problemau ac i wella eu dysgu eu hunain. Yn y chweched dosbarth, mae rhai grwpiau penodol o fyfyrwyr yn derbyn achrediad ar lefel 3 mewn Cyfathrebu ac yn y sgiliau allweddol ehangach.
138. Mae'r ddarpariaeth allgyrsiol yn rhagoriaeth yn yr ysgol. Darperir amrediad eang iawn o weithgareddau allgyrsiol o ansawdd da iawn, megis y clwb 'GYTS' (Gwna ymdrech trwy siarad), chwaraeon, cerddorfa, gweithgareddau drama, wythnos ddyngarol, clwb Cristnogol, ac maent yn agored i bob disgybl a myfyriwr. Cyfranna'r gweithgareddau hyn yn dda iawn at y cwricwlwm pynciol, at ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, at ddatblygiad y medrau allweddol ehangach ac at hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.
139. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Trwy gydaddoli dyddiol a phrofiadau mewn nifer o bynciau'r cwricwlwm, caiff disgyblion gyfleoedd da iawn i ennill dealltwriaeth o werthoedd a chredoau bywyd dyddiol.
140. Mae'r disgyblion yn:-
- barchus ac yn ystyriol o eraill
 - ymwybodol o faterion sensitif megis rhagfarn, hiliaeth a hawl yr unigolyn
 - ysgwyddo cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n rhagorol â'i gilydd
 - cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol
 - meithrin hunan ddisgyblaeth, ymddygiad cyfrifol a pharch at eiddo
 - dangos ymwybyddiaeth ragorol o Gymru a'i thraddodiadau
 - cyfoethogi eu profiad ac yn ehangu eu gorwelion trwy ymweliadau a thripiâu ysgol amrywiol
 - dangos gofal dros eraill wrth godi arian tuag at achosion da
 - ymwybodol o ddiwylliannau eraill ac yn parchu amrywiaeth a ffyrdd gwahanol bobl o fyw
141. Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn chwarae rhan allweddol ym mywyd bob dydd yr ysgol. Maent yn trefnu gweithgareddau, yn ysgwyddo amrywiaeth o ddyletswyddau ac mae eu cynhaliaeth i ddisgyblion yn rhagorol.

142. Caiff yr ysgol gefnogaeth dda i'w gwaith a'i gweithgareddau gan y rhieni fel unigolion, fel aelodau o'r Gymdeithas Cyfeillion ac fel llywodraethwyr. Mae'r cysylltiadau da iawn sydd gan yr ysgol gyda'r gymuned leol a'r gymuned eangach yn cyfrannu'n sylweddol at y cyfleoedd a'r profiadau a gaiff y disgyblion a'r myfyrwyr. Mae hyn i'w weld ar ei orau o fewn y rhaglen addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol. Mae'r cysylltiadau da iawn gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n rhwydd i'r ysgol uwchradd. Trwy gysylltiadau gyda choleg addysg bellach a darparwr hyfforddiant lleol, mae'r ysgol wedi sicrhau mynediad i elfennau addas o gwricwlwm galwedigaethol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4. Caiff nifer pellach o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 fynediad i brofiad gwaith estynedig sy'n ymestyn dros o leiaf un diwrnod yr wythnos, trwy drefniant gyda Gyrfa Cymru. Yn y chweched dosbarth, mae trefniant cydweithredol gydag ysgol uwchradd arall o fewn y sir yn ychwanegu cwrs galwedigaethol at y ddarpariaeth.
143. Cyfranna'r ysgol a'i staff yn effeithiol at waith Rhwydwaith 14-19 Ceredigion a sefydlwyd i ymateb yn lleol i raglen 'Llwybrau Dysgu 14-19' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymatebodd yr ysgol i agweddau ar yr agenda hwnnw trwy ehangu ei harlwy galwedigaethol, sefydlu fforwm cyflogwyr a sefydlu cyfundrefn i fentora disgyblion. Mae parhau i cynllunio er mwyn ymateb i ddatblygiadau 'Llwybrau Dysgu' yn un o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.
144. Mae datblygu dwyieithrwydd a hybu Cymreictod yn nodwedd greiddiol o bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol. Cymraeg yw cyfrwng dysgu pob pwnc, ac eithrio'r pwnc Saesneg a'r ddau bwnc, gwyddoniaeth a mathemateg, lle mae'r disgyblion yn dewis y cyfrwng iaith. Mae'r pwyslais ar hybu'r Gymraeg trwy holl fywyd yr ysgol yn sicrhau hyfedredd dwyieithog cynyddol y disgyblion a'r myfyrwyr wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Trwy ei darpariaethau cwricwlaidd ac allgyrsiol, llwydda'r ysgol i ddarparu amrediad helaeth o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion a'r myfyrwyr o Gymreictod, ac o ganlyniad mae eu profiadau addysgol yn cael eu hymestyn yn arwyddocaol.
145. Mae gan yr adran fusnes gysylltiadau helaeth â chyflogwyr yr ardal. Ategir hyn gan ddarpariaeth y cwmni gyrfa, profiad gwaith B10 a B12 a chyrsgiau galwedigaethol. Ymatebodd yr ysgol i ofynion y Fframwaith Cenedlaethol Addysg a Gyrfaoedd.
146. Mae adrannau megis daearyddiaeth a mathemateg yn mynd ar ymweliadau pwrpasol i atgyfnerthu gwaith dosbarth. Felly hefyd ddisgyblion anghenion ychwanegol yr Adran Gynnal.
147. Mae myfyrwyr dylunio a thechnoleg yn edrych mewn dyfnder ar y modd y gweithreda busnes o'u dewis.
148. Mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu ei chysylltiadau gyda chyflogwyr. Yn ddiweddar, holwyd barn cyflogwyr am ddarpariaeth bresennol yr ysgol a ffyrdd o gryfhau'r bartneriaeth â busnes. Siomedig oedd yr ymateb o du cyflogwyr; dim ond canran fach iawn ohonynt a ddychwelodd yr holiadur.

149. Nid oes aelod o staff wedi treulio cyfnod gyda diwydiant yn ddiweddar fel rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant mewn swydd.
150. Derbynnir peth nawdd o ffynonellau masnachol.
151. Rhoddir sylw da iawn i ddatblygu addysg datblygiadau cynaliadwy. Astudir y nodweddion hyn mewn dyfnder mewn gwersi daearyddiaeth. Caiff materion cynaliadwyaeth sylw helaeth mewn gwersi addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol ar draws yr ystod oedran.
152. Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr ar addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang. Mapiwyd y ddarpariaeth ar draws y gwahanol bynciau ac mae gan y staff a'r disgyblion ymrwymiad clir i egwyddorion megis cyddibyniaeth, hawliau, ac amrywiaeth.
153. Mae'r Cyngor Ysgol yn ymgyrchu o blaid masnach deg ac mae'r chweched dosbarth yn trefnu wythnos ddyngarol flynyddol lle codir arian at achosion da, gan gynnwys rhai mewn gwledydd llai datblygedig. Caiff papur, caniau, plastig a chardfwrdd eu hailgylchu. Mae adeilad newydd yr ysgol wedi ymgorffori'r technegau diweddaraf i arbed ynni.
154. Mae cyrsiau'r adran fusnes yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio agweddau megis strwythurau busnes a marchnata mewn dyfnder. Datblygant eu dealltwriaeth o sgiliau masnachu, yn cynnwys ffactorau risg. Dan gynllun hybu menter daw siaradwyr gwadd i drafod gyda disgyblion cyfnod allweddol 4 y ffactorau a barodd iddynt fentro i fusnes. Caiff disgyblion sy'n dilyn y cwrs busnes TGAU B10 brofiad o redeg menter "go iawn" fel rhan o'u cwrs. Mae myfyrwyr y chwech dosbarth yn cynhyrchu a gwerthu nwyddau mewn ffeiriau ysgol i godi arian at achosion da.
155. Mae'r ysgol yn arfogi ei disgyblion â sgiliau dwyieithog a medrau allweddol eraill a fydd yn gaffaeliad iddynt mewn gwaith a hamdden gydol eu hoes.
156. Drwy wersi addysg bersonol iechyd a chymdeithasol, datblygir balchder y disgyblion yn eu bro a'u cenedl awydd i wasanaethu ac empathi ag eraill llai ffodus. Mae llwyddiant yr Wythnos Weithgareddau ac ymgyrchoedd y Cyngor Ysgol yn tystio i lwyddiant yr ysgol wrth ddatblygu dinasyddion da.
157. Hyrwyddir addysg gydol oes mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau eraill y dalgylch. Gwna oedolion ddefnydd da o adnoddau'r ysgol fin nos.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

158. Dyfarnodd y tîm arolygu Radd 1 i'r ysgol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn sy'n uwch na'r un a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hunan arfarniad, sef Gradd 2. Adlewyrcha hyn y nifer o ragoriaethau yn y gofal, cyfarwyddyd a'r gefnogaeth y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer y disgyblion a'r myfyrwyr.

Ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr.

159. Ym mhrosbectws yr ysgol mae pwyslais ar arddel 'gwerthoedd o barch, gofal a chonsyrn' ac ar gynnig y gynhaliaeth orau posibl i bob disgybl' ac ategir hyn gan rieni a llywodraethwyr yr ysgol.
160. Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli ei threfniadau gofal yn effeithiol iawn, ac mae polisiau perthnasol wedi eu paratoi. Mae hyn yn rhagoriaeth ac yn fodd i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Trwy gydweithio'n agos â staff adrannau lechyd, Lles ac Addysg y Cyngor Sir, gwneir defnydd priodol o'r asiantaethau proffesiynol allanol, yn cynnwys cwnselwraig, swyddog cynhwysiad adferol, nyrs, a'r heddlu, i gefnogi disgyblion pan fo angen. Yn ogystal, mae Adran Gynnal yr ysgol yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth mwy penodol.
161. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni a'r gymuned ac mae Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol a'r Llywodraethwyr yn weithgar iawn.
162. Mae'r cyswllt bugeiliol agos sy'n bodoli gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo yn sicrhau trosglwyddiad hwylus ac esmwyth i'r disgyblion. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn cadarnhau bod y rhaglen anwytho disgyblion newydd yn dda iawn. Yn ogystal, paratowyd unedau pontio cwricwlaidd o ansawdd da sy'n cyfrannu at ddilyniant effeithiol o'r sector cynradd i'r uwchradd. Mae'r cymorth ychwanegol a roddir i'r disgyblion iau gan fyfyrwyr y chweched dosbarth o gymorth i sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym ac yn eu cynorthwyo i oresgyn unrhyw anawsterau.
163. Cynigir cyfle i rai o ddisgyblion B6 fynychu cwrs pontio iaith yn y Ganolfan Iaith sydd wedi ei lleoli ar safle'r ysgol. Yna, cynigir cynhaliaeth ychwanegol iddynt trwy gydol eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd; mae'r ddarpariaeth hon yn dda iawn.
164. Rhoddir arweiniad da iawn i ddisgyblion pan fyddant yn gwneud dewisiadau ynglŷn â'u gyrfaoedd wrth drosglwyddo i B10 a'r chweched dosbarth. Mae gwybodaeth fanwl am y cyrsiau ar gael.

165. Mae'r Penaethiaid Blwyddyn yn arwain eu timau o diwtoriaid dosbarth yn effeithiol iawn a chynigiant gynhaliaeth ardderchog i'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n rhwydd mewn gwersi ar draws y cwricwlwm ac mewn amrywiol weithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae'r disgyblion hwythau yn manteisio ar gyfleoedd i leisio eu barn ar wahanol agweddau o fywyd yr ysgol trwy eu cynrychiolwyr ar Gyngor yr Ysgol, sy'n gweithredu'n effeithiol iawn. Trafoda'r cyngor destunau pwysig yn frwd, yn cynnwys gwisg ysgol, bwyd iach yn y ffretur a chynnyrch 'masnach deg' yn ogystal â'r system ddisgyblu a gwobrwyo.
166. Rhennir gwybodaeth am yr ysgol gyda'r rhieni ym mhrosiectws yr ysgol, a gwneir defnydd effeithiol o Lyfr Cyswllt y disgybl fel dull arall o gyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol.
167. Cynigia'r ysgol raglen eang o addysg bersonol a chymdeithasol i'r holl ddisgyblion yn rheolaidd mewn gwersi penodol ar amserlen yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth wedi ei strwythuro'n ofalus, ac yn cynnwys addysg iechyd ac addysg rhyw statudol; cyflwynir y gwersi yn effeithiol iawn. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion ymhellach trwy wahodd arbenigwyr i siarad gyda hwy, yn ogystal â chynnig cyflwyniadau ar bynciau perthnasol gan grwpiau drama lleol a rhyngwladol. Mae'r disgyblion eu hunain wedi cyfleu eu mwynhad yn y pwnc a phrofa hyn, ynghyd â'u hagwedd gadarnhaol, bod darpariaeth yr ysgol yn ardderchog. Drwy hyn a'r strwythur bugeiliol sicrha'r ysgol fod:
- anghenion a chynnydd pob disgybl yn cael ei nodi
 - disgyblion yn cael eu monitro gan aelodau o staff mae ganddynt hyder ynddynt ac y gallant fynd atynt yn hawdd a rheolaidd
 - y rhaglen yn cynnwys cyfarwyddyd addysg iechyd a gyrfaeodd
 - Fframweithiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg ac Arweiniad Gyrfaeodd yn cael eu hystyried
 - defnydd effeithiol yn cael ei wneud o wasanaethau arbenigol megis y gwasanaeth cymdeithasol, seicolegol, meddygol, gyrfaeodd a'r heddlu.
168. Caiff y disgwyliadau a nodir ym mholisi presenoldeb yr ysgol eu hesbonio'n glir i'r disgyblion a'u rhieni mewn gwahanol lyfrynnau. Derbynnir a chedwir nodiadau oddi wrth rieni yn egluro absenoldeb eu plant.
169. Mae gan yr ysgol darged presenoldeb heriol o 94%, ond nis cyrhaeddwyd o bell ffordd ym mlwyddyn academaidd 2004-05. Cydymffurfir â'r gofynion cofrestru ac adrodd ar bresenoldeb i rieni.
170. Mae staff y swyddfa, dan oruchwyliaeth aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, yn gydwybodol brosesu'r wybodaeth a gesglir gan athrawon dosbarth, gan fwydo gwybodaeth yn wythnosol i'r cyfrifiadur canolog. Targedir disgyblion gyda phresenoldeb is na 90% drwy ffonio eu cartrefi yn ystod y bore cyntaf o absenoldeb. Mae hyn yn cael effaith bositif.
171. Mae disgyblion sydd â phresenoldeb rhagorol yn cael llythyrau llongyfarch er mwyn eu canmol a'u hannog. Oherwydd yr anawsterau gweinyddol, fodd bynnag, ni chawsant eu hanfon ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2004-05.

172. Ymdrinia'r ysgol â phresenoldeb drwy wahodd nifer o asiantaethau gwahanol i drafod y mater. Yn y cyfarfodydd hyn, ceir cyfraniadau gwerthfawr gan arbenigwyr allanol. Ymatebant yn sensitif i'r amgylchiadau personol sy'n peri i gnewyllyn bach o ddisgyblion fod yn amharod i ddod i'r ysgol.
173. Disgwylir i bob disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr, neu ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol, lofnodi ffurflen yn nerbynfa'r ysgol yn nodi'r rheswm. Roedd y drefn yn gweithredu'n effeithiol yn ystod yr arolygiad.
174. Mae'r Cynllun Gwella Ymddygiad yn annog ymddygiad da trwy osod targedau priodol ar gyfer disgyblion unigol. Cysyllta'r ysgol yn fuan â'r cartref os nad yw disgybl yn cwrdd â'r disgwyliaid uchel. Ymgynghorwyd â staff a disgyblion ynghylch y drefn hon gan ymateb i'w sylwadau. Caiff disgyblion sy'n tarfu ar waith dosbarth eu "hynysu'n fewnol" am gyfnodau penodol dan oruchwyliaeth unigol mewn ystafell ar wahân. Yn ogystal, cynhelir atalfa amser cinio neu ar ôl ysgol. Gwnaed hyn mewn ymateb i gais gan Gyngor yr Ysgol.
175. Daw swyddog o'r cwmni gyrfa lleol ddeuddydd yr wythnos i'r ysgol i gynghori disgyblion. Lleolir ei swyddfa mewn lle hwylus, canolog ym mhrif gyntedd yr ysgol. Gwneir defnydd da ohoni a chanmola'r disgyblion y cyngor gyrfaol a dderbyniant.
176. Y cwmni gyrfa hefyd sy'n trefnu cyfnodau profiad gwaith i ddisgyblion B10 a myfyrwyr B12, sy'n cynnwys gwirio'r gofynion iechyd a diogelwch. Mae swyddog sirol arbenigol yn trefnu profiad gwaith addas i ddisgyblion anghenion ychwanegol. Nid yw'r ysgol ei hun yn monitro'r ddarpariaeth profiad gwaith er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan gyflawn a buddiol.
177. Mae'r ysgol yn y broses o geisio achrediad fel ysgol iach. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion a'r myfyrwyr. Cydweithia'r cydlynnydd iechyd a diogelwch yn effeithiol gyda chynrychiolwyr y cwmni masnachol sy'n gyfrifol am adeilad a safle'r ysgol.
178. Caiff offer trydanol ac offer ymladd tân eu harchwilio'n briodol gan y cwmni. Cynhelir driliau tân rheolaidd, gan amrywio'r amgylchiadau. Mae bysus yn mynd a dod yn hwylus ar ddechrau a diwedd y dydd, gan ddefnyddio lle parcio pwrpasol.
179. Mae staff yr ysgol a pherchnogion y safle yn trafod gwaith cynnal a chadw'n gyson. Gweithredwyd nifer o welliannau dros wyliau'r haf i sicrhau bod yr adeilad yn parhau'n ddiogel. Dygwyd sylw'r ysgol ar lafar at nifer o faterion iechyd a diogelwch eraill yn ystod yr arolygiad.
180. Ar gais yr ysgol, cyflwynodd y cwmni arlwyf fwydydd iachach yn y ffreutur, ynghyd â strwythur prisio sy'n annog eu bwyta. Ar gais Cyngor yr Ysgol, maent wedi addo rhoi byrbrydau iach yn y peiriannau gwerthu pan ddaw'r stoc bresennol i ben.

181. Mae gan nifer digonol o aelodau staff yr ysgol, gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol. Mae nyrs yr ysgol yn ymwelydd cyson, a gall disgyblion droi ati i rannu unrhyw bryderon.
182. Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg drwy safle'r ysgol gan basio'n agos i'r ffreutur ac ystafelloedd newid addysg gorfforol. Fe'i defnyddir yn achlysurol gan gerddwyr i fynd â chŵn am dro, gan achosi problemau cŵn yn baeddu'r caeau chwarae. Mae lleoliad y llwybr yn achosi elfen o risg i iechyd a diogelwch y disgyblion.
183. Mae gweithdrefnau clir yn sicrhau bod yr ysgol yn rhoi sylw gofalus iawn i amddiffyn plant. Fe'u goruchwylir gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Cynhaliwyd sesiynau i godi ymwybyddiaeth y staff o'r gofynion cyfredol. Mae'r ysgol yn cyflogi cwmselwr i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol

184. Defnyddia'r ysgol brofion safonol, gwybodaeth o'r ysgolion cynradd, sy'n ei bwydo ynghyd â meini prawf yr awdurdod addysg lleol, yn effeithiol i leoli'r disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol ar y gofrestr.
185. Cynigia'r ysgol ddarpariaeth a chynhaliaeth ragorol i'r disgyblion hyn trwy:
 - ddarparu cymorth ac arweiniad rhagorol er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau llythrennedd yn y ganolfan gynnal yn ogystal ag yn y dosbarthiadau prif lif
 - wneud defnydd effeithiol o raglen gyfrifiaduron i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
 - gefnogaeth ragorol i unigolyn a grwpiau yn y prif lif gan gymorthyddion dysgu
 - roi gwybodaeth berthnasol i athrawon y prif lif er mwyn hyrwyddo eu cynllunio
 - gynnig cefnogaeth ragorol yn y sgiliau sylfaenol a thrawsgwricwlaidd bob bore cyn i'r ysgol ddechrau
 - ddefnydd rhagorol o fyfyrwyr y chweched dosbarth i fentora disgyblion iau yn addysgol ac yn emosiynol.
186. Mae'r ysgol yn llwyddo i raddau helaeth iawn i gynnal disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad. Gwneir defnydd rhagorol o arbenigedd y gwmselwraig i gefnogi'r disgyblion er mwyn sicrhau nad yw eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd hwy na chynnydd disgyblion eraill.
187. Caiff y Côt Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ei weinyddu'n effeithiol a sefydlwyd cysylltiadau rhagorol gyda'r mwyafrif helaeth o rieni'r disgyblion hyn. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol, ynghyd â strategaethau eraill, yn llwyddo i fonitro cynnydd academaidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion unigol yn effeithiol.
188. Mae'r cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnig arweiniad rhagorol i'r ysgol ac mae'r athrawes arbenigol, yr athrawon pwnc, y cymorthyddion dysgu a'r lywodraethwraig ddynodedig yn ei chefnogi yn effeithiol.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal

189. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal yn rhagorol.
190. Mae'r ysgol yn cydnabod amrywiaeth cefndiroedd y disgyblion ac yn darparu cwricwlwm eang a hyblyg ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys trefniadau arbennig i rai disgyblion dreulio rhan o'u cwrs oddi ar y safle. Mae'r gyfundrefn fugeiliol a thraddodiad yr ysgol yn annog yr holl ddisgyblion i feithrin disgwyliadau uchel yn eu gwaith a'u gweithgareddau hamdden. Clodforir llwyddiannau disgyblion unigol yn aml.
191. Mae'r ysgol yn monitro a chymharu canlyniadau arholiadau bechgyn a merched. Mae pob dewis pynciol yng nghyfnod allweddol 4 ar gael i fechgyn a merched ac mae'r ysgol yn ceisio herio stereoteipio wrth gynghori disgyblion ar eu dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.
192. Mae pob disgybl yn derbyn cefnogaeth sensitif ac effeithiol os cyfyd anawsterau yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol berthynas waith dda iawn ag amrediad eang o asiantaethau allanol. Mae un disgybl yng ngofal yr Awdurdod Lleol yn gyfredol ac mae gan yr ysgol weithdrefnau i roi'r gefnogaeth a'r gynhaliadaeth angenrheidiol iddo.
193. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol wedi eu magu yn yr un gymdeithas â'r disgyblion eraill ac wedi integreiddio yn naturiol gyda'u cymheiriaid. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â'r addoliadau ar y cyd a'r gweithgareddau allgyrsiol, yn hybu cydraddoldeb hiliol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau sy'n ymdrin yn gadarn iawn ag unrhyw ddigwyddiad hiliol.
194. Mae'r ysgol yn creu hinsawdd lle na cheir unrhyw wahaniaethu nac annifyrrwch ac mae'n sicrhau chwarae teg i bob disgybl a myfyriwr. Tystia'r rhieni a'r disgyblion y byddai'r ysgol yn ymateb yn ddi-oed i unrhyw achos o annhegwch neu gamwahaniaethu.
195. Yn gyfredol, nid oes disgybl na myfyriwr anabl yn yr ysgol ond byddai modd i unrhyw ddisgybl, myfyriwr neu oedolyn gael mynediad i bob rhan o'r adeiladau a'r safle. Os daw disgybl neu fyfyrwr anabl i'r ysgol, y drefn arferol yw ei fod yn cael mynediad i'r cwricwlwm llawn, lle bo'n ymarferol, ac yn cael ei addysgu yn yr un dosbarthiadau â'i gydgyfyrwyr a'i gyd-ddisgyblion.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

196. Yn ei hadroddiad hunanarfarnu, rhoddodd yr ysgol Radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â rhai'r ysgol.

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel

197. Mae nodau ac amcanion yr ysgol wedi eu seilio ar werthoedd o gyd - barch a chyd - werth. Mae gweledigaeth ac arweiniad y pennaeth yn sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn sylfaen i weithrediad polisïau'r ysgol o ddydd i ddydd.
198. Mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn rhagorol ac yn cyfrannu'n sylweddol at fonitro ac arfarnu, cynllunio a chyflwyno newid a chreu hinsawdd o ofal a chefnogaeth i ddisgyblion a myfyrwyr.
199. Mae'r rheolwyr canol yn arwain a rheoli eu hadrannau'n effeithiol, gan arfarnu eu gwaith yn dda a chynllunio'n strategol ar gyfer eu gwella.
200. Mae gan y staff lais amlwg yn y broses o lunio ac adolygu rhai polisïau ysgol, megis polisïau ymddygiad ac asesu.
201. Mae ethos cynhaliol yr ysgol yn sicrhau sylw cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r polisi Cyfle Cyfartal yn weithredol fel rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol.
202. Mae'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir hwy yn 'Y Wlad sy'n Dysgu', 'Llwybrau Dysgu' a blaenoriaethau'r Awdurdod Unedig, gan eu plethu i waith a chynlluniau'r ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer pontio cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn parhau i gael sylw; rhoddir sylw hefyd i ehangu'r cwricwlwm 14 - 19. Mae sawl pwnc yn datblygu agweddau ar addysg gynaliadwy yn effeithiol.
203. Mae gan yr ysgol bartneriaethau da gydag ysgolion eraill y cylch a chyda colegau addysg bellach a cholegau addysg uwch.
204. Mae targedau perfformiad yn cael eu pennu ar sail adnabyddiaeth adrannau o'r disgyblion ond ni roddir ystyriaeth ddigonol i ddata o berfformiad blaenorol y disgyblion.
205. Mae perfformiad disgyblion mewn profion ac arholiadau allanol ar ddiwedd cyfnod allweddol yn cael ei gymharu â'r targedau a osodwyd, a bydd y dadansoddiadau hyn yn sicrhau bod y targedau ysgol gyfan yn realistig a heriol.

206. Pan fo canlyniadau heb gyrraedd y targedau arfaethedig, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn ymateb yn effeithiol, gan lunio cynllun gweithredu pwrpasol. Fodd bynnag, nid oes prosesau'n bodoli ar draws y pynciau i sicrhau bod adrannau yn adeiladu ar ganlyniadau da.
207. Mae'r gyfundrefn Rheoli Perfformiad yn weithredol yn yr ysgol, ac yn pennu targedau addas ar gyfer athrawon. Mae'r anghenion hyfforddiant a amlygir gan y broses yn cael eu diwallu o fewn cyfyngiadau cyllidol yr ysgol.
208. Mae'r ysgol yn buddsoddi fwyfwy mewn hyfforddiant o fewn y sefydliad. Mae trefniadau o'r fath wedi sicrhau cynhaliaeth gref i reolwyr canol yr ysgol.
209. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol er mwyn adnabod anghenion datblygu staff a hyfforddiant. Mae'r adolygiad blynyddol trwyadl o'r trefniadau yn olrhain eu heffaith ar safonau dysgu ac addysgu.
210. Nid yw'r gweithdrefnau rheolaethol wedi llwyddo i sicrhau bod holl flaenoriaethau ysgol gyfan yn cael eu gweithredu'n gyson ac nid yw wedi sicrhau bod yr arferion da a welir mewn rhai adrannau yn cael eu gweithredu drwy'r ysgol.
211. Mae saith aelod o'r staff, sy'n nifer uchel iawn, wedi, neu yn dilyn, y cwrs Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid. Mae hyn wedi arwain at sawl datblygiad allweddol yn yr ysgol.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff eraill sy'n goruchwyllo yn cyflawni eu cyfrifoldebau?

212. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n rhagorol. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithio'n agos iawn gyda'r staff wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth fanwl iawn i'w galluogi, mewn ymgynghoriad â staff yr ysgol, i gyfranogi'n weithredol mewn trafodaethau am ddatblygiad strategol yr ysgol. Mae'r cysylltiadau agos iawn rhwng y llywodraethwyr a'r ysgol, a'u hadnabyddiaeth o'r ardal, yn cynyddu eu dealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.
213. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda iawn am y canlyniadau arholiadau a phrofion allanol a gyflawnir gan ddisgyblion a myfyrwyr, a pha mor dda y mae'r ysgol yn perfformio mewn perthynas ag ysgolion cyffelyb. Caiff safonau eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethwyr. Mae'r llywodraethwyr wedi cyfrannu'n arwyddocaol at strategaeth gyllidol yr ysgol ac wedi cymryd penderfyniadau ariannol anodd mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Addysg Lleol.
214. Mae'r llywodraethwyr wedi sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod â'r holl ofynion statudol a bu iddynt gymryd rhan iawn ym mhroses hunan arfarnu yr ysgol. Cyfranna'r corff llywodraethol yn dda iawn at arweinyddiaeth yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 6: pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

215. Yn ei hadroddiad hunan arfarnu rhoddodd yr ysgol Radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â rhai'r ysgol.

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad yr ysgol ei fonitro a'i arfarnu

216. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn mynd i'r afael, yn wrthrychol a theg, â saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae'r ysgol wedi nodi nodweddion da a rhagorol, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach.

217. Nodir ffynonellau tystiolaeth yn yr adroddiad ond ni ddyfynnir yn fanwl o'r ffynonellau hyn i gyfiawnhau barn neu radd.

218. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyfateb yn agos i ganfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu, ond mae'r tîm arolygu wedi dyfarnu gradd uwch i ddau o'r saith cwestiwn allweddol.

219. Mae arsylliadau uniongyrchol, adolygiadau adrannol, monitro hanner tymhorol a phrosesau monitro adrannol, yn cyfrannu'n dda iawn at ymwybyddiaeth rheolwyr o'u meysydd cyfrifoldeb.

220. Caiff canlyniadau profion ac arholiadau eu dadansoddi'n drylwyr, a'u defnyddio i ddatblygu cryfderau a gwella unrhyw wendidau. Fodd bynnag, nid yw'r broses o sicrhau atebolrwydd adrannau am ganlyniadau a pherfformiad wedi ei lawn ddatblygu.

221. Mae cyflwyno system gyfrifiadurol yn ddiweddar ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth asesu ac asesiadau o ymddygiad ac ymdrech disgyblion, yn dechrau profi'n fuddiol iawn.

222. Nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau adroddiad hunan arfarnu'r ysgol a'r Cynllun Gwella Ysgol yn ddigon cryf a chyson.

223. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol yn ystyried barn disgyblion a myfyrwyr. Mae'r adroddiad blynyddol o weithgareddwch y Cyngor Ysgol i'r corff llywodraethu yn cyfrannu'n dda at y broses hon.

224. Mae'r pwyslais cryf ar brosesau ymgynghori llawn ar bob lefel yn yr ysgol, yn sicrhau bod y staff yn perchnogi'r trefniadau arfarnu a'u canfyddiadau.

225. Mae'r ysgol yn ymgynghori'n llawn gyda rhieni wrth arfarnu rhai agweddau o'i gwaith. Serch hynny, nid oes trefniadau rheolaidd a systematig i ganfod barn rhieni na barn eraill sydd â diddordeb ym muddiannau'r ysgol.

226. Bu trafod eu rôl yn y broses hunan arfarnu yn rhan allweddol o raglen hyfforddiant mewnol y rheolwyr canol. Mae datganoli'r trefniadau hunan arfarnu i adrannau yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol.

Pa mor effeithiol yw'r broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant

227. Mae prosesau'r ysgol i arfarnu ac adolygu cynnydd a safonau yn sail dda ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau.
228. Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a phriodol. Mae'n nodi cyfrifoldebau, amserlen gweithredu, meini prawf llwyddiant ac adnoddau angenrheidiol. Mae'r Cynllun yn cael ei werthuso'n flynyddol, gan nodi'r targedau a gyrhaeddwyd a meysydd sydd angen sylw pellach. Mae hyn yn arfer dda.
229. Er hynny, cynllun blwyddyn yn unig yw'r Cynllun Gwella Ysgol, ac nid yw'n sail i gynllunio strategol hirdymor.
230. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu adrannol â'r blaenoriaethau a amlygir yn y cynlluniau datblygu adrannol. Mae'r cynlluniau hyn wedi eu cysylltu'n briodol gyda blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol.
231. Mae cyllid penodol yn cael ei bennu yng nghyllideb yr ysgol ar gyfer diwallu prif flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol. Mae cyllid hefyd yn cael ei glustnodi ar gyfer cyfarfod â'r prif anghenion sy'n cael eu hamlygu yn y cynlluniau datblygu adrannol.
232. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn yr amrywiol gynlluniau datblygu trwy gyfuniad o gynnig adnoddau ychwanegol a phennu 'amser o ansawdd' i ymgymryd â'r tasgau sy'n cael eu harenwi. Mae'r arfer hwn wedi profi'n effeithiol iawn.
233. Mae'r adolygiad o waith adrannau, bob yn ail flwyddyn, yn gyfrwng effeithiol iawn o adnabod cryfderau a gwendidau, pennu targedau neu lunio cynlluniau gweithredu.
234. Mae rôl reolaethol y rheolwyr canol wedi ei grymuso'n sylweddol, trwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ysgol ganolog iddynt.
235. Bu'r prosiectau yr ymgymeryd â hwy gan aelodau o'r staff a ddilynodd, neu sy'n dilyn, y cwrs Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid, yn gyfrwng sylweddol i hyrwyddo datblygiadau ysgol gyfan mewn sawl maes.
236. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Cynhaliwyd safonau da ar draws y cwricwlwm, ac yn y medrau allweddol, gan adeiladu ar yr arferion da oedd yn bodoli yn yr ysgol. Datblygwyd cyfundrefnau hunan arfarnu ac mae rôl reolaethol rheolwyr canol wedi ei grymuso. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol parthed cyd-addoli dyddiol. Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu strategaethau i gau'r bwloch sy'n bodoli rhwng canlyniadau profion ac arholiadau bechgyn a merched mewn iaith, ac i godi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

237. Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, rhoddodd yr ysgol radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfyd â rhai'r ysgol.

Digonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

238. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys i gwrdd â gofynion y cwricwlwm. Caiff y rhan fwyaf o wersi eu haddysgu gan staff arbenigol. Pan fo athrawon yn addysgu y tu allan i'w prif arbenigedd, maent yn cael cynhaliath effeithiol. Er gwaethaf ei hymdrechion, mae'r ysgol yn cael trafferth i gael athrawon llanw cymwys mewn rhai pynciau yn ystod salwch neu absenoldeb estynedig athrawon.
239. Mae'r rhannu cyfrifoldebau, cydweithio, cymorth ac arweiniad da sy'n bodoli o fewn ac ar draws adrannau yn gryfder yn yr ysgol.
240. Mae ansawdd darpariaeth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr athrawon yn dda. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar y Cynllun Gwella Ysgol, y cynlluniau datblygu adran a gofynion yr unigolyn. Mae rhaglen briodol ar gyfer athrawon sy'n newydd i'r ysgol, a chynigir cymorth effeithiol iddynt o ddydd i ddydd.
241. Mae'r staff cynnal yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon yn yr ystafell dosbarth. Mae staff atodol yr ysgol yn gwneud cyfraniad allweddol at rediad effeithiol yr ysgol o ddydd i ddydd.
242. Mae adnoddau da ar gyfer pob pwnc, ac fe'u defnyddir yn economaidd, effeithlon ac effeithiol.
243. Gwna'r disgyblion a'r myfyrwyr ddefnydd da iawn o'r ganolfan adnoddau, lle mae stoc dda iawn o lyfrau a threfn effeithiol o gatalogio a chofnodi benthyciadau wedi ei sefydlu.
244. Nid yw'r adnoddau technoleg gwybodaeth yn cwrdd yn llawn â dyheadau cynyddol yr adrannau.
245. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'w sefyllfa adeg yr arolygiad blaenorol, mae'r ysgol bellach mewn adeilad newydd rhagorol a godwyd dan gynllun ariannu preifat.
246. Mae'n adeilad lliwgar a glan a chanddo gaeau chwarae helaeth. Bu anawsterau dybryd oherwydd arwyneb diffygiol y caeau. Bellach, fe'u cywirwyd a bydd yr holl gaeau ar gael at ddefnydd yr ysgol erbyn Pasg 2006. Yn y cyfamser, gwnaed trefniadau priodol i ddefnyddio caeau eraill dros dro.
247. Mae'r disgyblion a'r staff yn mwynhau ystafelloedd golau, braf ac mae mynediad i'r anabl i bob rhan o'r ysgol. Yn ogystal, ag ystafelloedd dosbarth digonol ar gyfer y gwahanol adrannau, mae neuadd fawr, stiwdio ddrama, campfa, ffreutur a derbynfa groesawgar. Cedwir holl adeilad a safle'r ysgol yn lân a thaclus.

248. Mae mynediad a llefydd parcio hwylus i rieni, staff a bysiau ysgol. Mae holl gyfleusterau canolfan hamdden y dref, sy'n union gerllaw, at ddefnydd yr adran addysg gorfforol yn ystod oriau ysgol.
249. Mae canolfan adnoddau'r ysgol yn cynnig awyrgylch symbylus sy'n annog darllen a dysgu annibynnol.

Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian?

250. Y pennaeth, gyda chymorth aelod arall o'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n gyfrifol am gyllideb yr ysgol ar lefel strategol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r corff llywodraethu, gan ddarparu adroddiadau cyllidol cynhwysfawr sy'n cynnig opsiynau cyllidol gwahanol, pan fydd galw am hynny.
251. Mae'r pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn monitro'r gyllideb yn effeithiol o ddydd i ddydd.
252. Nid yw'r ysgol wedi derbyn archwiliad ariannol gan yr Awdurdod Addysg ers yr arolygiad blaenorol.
253. Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol ac yn sicrhau lefelau staffio ac adnoddau priodol ar gyfer addysgu'r cwricwlwm. Mae'r athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w prif arbenigedd yn derbyn cynhaliaeth dda.
254. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu i'r adrannau trwy fformiwla. Hefyd, mae cyllid, ar gyfer cyfarfod â'r prif flaenoriaethau a arenwir yn y cynlluniau datblygu adrannol.
255. Mae trefniadau effeithiol iawn yn bodoli ar gyfer adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pob aelod o'r staff. Cânt eu diwallu o fewn terfynau cyllidol yr ysgol.
256. Mae'r drefn ar gyfer anwytho athrawon newydd gymhwyso, athrawon newydd i'r ysgol, a'r rhai sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau o'r newydd, yn rhagoriaeth.
257. Mae arfarniad blynyddol yr ysgol o'i hanghenion cwricwlaidd a staffio yn drylwyr a manwl iawn.
258. Prif flaenoriaeth gyllidol yr ysgol yw sicrhau lefelau staffio addas ar gyfer cyflwyno profiadau eang i'w disgyblion a'i myfyrwyr. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, penderfynodd y corff llywodraethu, gyda chefnogaeth yr Awdurdod Unedig, fabwysiadu cyllideb gyda diffyg cynlluniedig o £47,000, er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio.
259. O ystyried, ansawdd da canlyniadau profion ac arholiadau allanol, safonau da cyflawniad y disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd dda iawn a gofal y disgyblion a myfyrwyr, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

260. Prif ganfyddiad yr adroddiad yw bod Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig yn “ysgol dda ag iddi nifer o ragoriaethau sy'n cynnwys ansawdd da iawn canlyniadau arholiadau allanol TGAU, Uwch Atodol a Safon Uwch y disgyblion a'r myfyrwyr, cwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg, ethos gwâr Cymreig a Chymraeg, ac ansawdd da'r gofal a'r arweiniad a rydd y staff cyfan i'r disgyblion a'r myfyrwyr”. Mae'r ysgol gyfan yn ymfalchïo yn y canfyddiadau hyn.
261. Mae'r ysgol hefyd yn ymfalchïo bod yr adroddiad yn nodi bod yr ysgol “wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 1999”.
262. Noda'r adroddiad bod y tîm arolygu “yn cytuno â llawer o'r barnau a wnaeth yr ysgol yn ei adroddiad hunan-arfarnu” gan roi gradd uwch i ddau o'r saith cwestiwn allweddol. Rhydd hyn hyder a hygredded i farn broffesiynol yr ysgol am safonau a bydd yn atgyfnerthu'r sail ar gyfer cynnal a pharhau i ddatblygu prosesau hunan-arfarnu'r ysgol i'r dyfodol.
263. Mae'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn rhai sydd eisoes wedi eu hadnabod gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu a'r Cynllun Gwella Ysgol cyfredol. Mae'r argymhellion a'r sylwebaeth adeiladol a geir yn yr adroddiad yn gymorth i'r ysgol finiogi a chryfhau ymhellach ymdrechion yr ysgol i barhau i ddarparu addysg o'r safon uchaf a pharhau yn ei hymdrechion i wella'n barhaus.
264. Caiff yr argymhellion eu cynnwys yn y cynllun gweithredu a lunnir mewn ymateb penodol i'r adroddiad gan weu a phlethu'r camau gweithredu i mewn i'r Cynllun Gwella cyfredol ac ar gyfer 2006-7.
265. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r tîm arolygu, o dan arweiniad yr arolygwr cofrestredig, am eu proffesiynoldeb yn ystod yr arolygiad. Rhydd yr adroddiad hwn gyfeiriad clir i'r ysgol gynnal ac adeiladu ar ei gwaith da i'r dyfodol.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth
Math o ysgol	Cymuned, wedi'i dynodi'n ddwyieithog
Ystod oed y disgyblion	11 i 18 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth Ceredigion
Cod post	SY23 3QN
Rhif ffôn	01970 639499

Pennaeth	Mr Arwel George
Dyddiad penodi	Medi 1989
Cadeirydd y Llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Catrin Beard
Arolygydd Cofrestredig	Mr Gareth Wyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	3 - 7 Hydref 2005

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	99	102	106	120	113	74	46	660

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	38	8	42.2

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau arbennig)	14.5
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	21.3
Cymhareb cyswllt cyffredinol (canran)	74.9

Canran presenoldeb y tri thymor llawn cyn yr arolygiad								
Tymor	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol gyfan
Hydref 04	94.7	92.0	90.7	91.3	90.6	85.1	85.5	90.7
Gwanwyn 05	91.8	89.9	90.9	90.2	89.9	78.4	77.2	88.4
Haf 05	90.8	86.5	88.3	87.1	32.7	61.8	27.7	72.2

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	2%
Nifer y disgyblion yn cael eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	Dros dro: Parhaol: 0 (dim un o leiafrifoedd ethnig)

Atodiad C

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 3:

Canlyniadau Aseidiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005														
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9: 120														
Canran y disgyblion ar bob lefel														
			D	A	B	W	1	2	3	4	5	6	7	8
Saesneg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0.8	-	0	0	0	2.5	16.7	25	30.8	24.2	0
		Cenedlaethol	0.4	0.8	0	0.2	0.4	1.7	8.1	21.3	33.6	23.5	9.4	0.2
	Prawf	Ysgol	0	3.3	0	-	-	-	3.3	19.2	23.3	25	25.8	-
		Cenedlaethol	0.5	3.5	1.4	0	0	0	7.5	20.4	32.6	22.7	10.1	0
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0.8	-	0	0	0	7.5	24.2	27.5	20.8	19.2	0
		Cenedlaethol	0.1	0.4	0	0	0.1	0.4	6.1	19.5	34.2	29.1	9.8	0
	Prawf	Ysgol	0	3.3	0	-	-	-	6.7	15	25.8	26.7	22.5	-
		Cenedlaethol	0.2	2.1	0.6	0	0	0	4.8	18.5	35	28.4	10.1	0
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0.8	-	0	0	0.8	5	26.7	18.3	29.2	19.2	0
		Cenedlaethol	0.3	0.6	0	0.2	0.2	0.9	6.8	18.9	25.7	31.6	13.7	0.3
	Prawf	Ysgol	0	1.7	0	-	-	-	5.8	10.8	21.7	41.7	18.3	-
		Cenedlaethol	0.3	5.1	0.7	0	0	0	5.1	17.2	19.9	36	15	0
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	-	0	0	0	2.5	13.3	38.3	30.8	15	0
		Cenedlaethol	0.3	0.7	0	0.2	0.1	0.4	6	20.1	32.8	27.1	11.6	0.1
	Prawf	Ysgol	0	2.5	0	-	-	-	0	17.5	27.5	29.2	23.3	-
		Cenedlaethol	0.3	4	0.6	0	0	0	4.7	16.6	32.5	28.2	13	0

Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer 2004

- D Datgymwyswyd
- A Absennol
- B Disgyblion yn gweithio ar lefel islaw'r hyn a asesir gan y prawf
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
- EP Lefel a ddyfarnwyd

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg (mamiath) neu Saesneg			
Yn ôl Asesiad Athro		Yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	73%	Yn yr ysgol	91%
Yng Nghymru	58%	Yng Nghymru	58%

Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

Ysgol Gyfun Penweddig
Adroddiad Cryno o Gyraeddiadau disgyblion 15 oed
2004/05.

Rhif AALI/Ysgol.
667/4048

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
RE2 Dros Dro

Cyraeddiadau TGAU, CLM(1) a chyraeddiadau Cyfatebol

Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2005: 102
Canran y disgyblion 15 oed:

	a gofrestrwyd ar gyfer pum TGAU neu ragor neu gymhwyster cyfatebol	a enillodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol sy'n cyfateb â phum gradd TGAU neu ragor.	A* i C	A* i G	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ cyfartalog am bob disgybl
Ysgol 2004/05	95	75	95	95	60	56
Ardal AALI 2004/05	89	60	89	89	44	48
Cymru 2004/05	87	52	85	85	38	40
Ysgol 03/04/05	96	74	96	96	62	55
Ysgol 02/03/04	96	71	95	95	58	54

	a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf un CLM(1), TGAU cwrs byr, TGAU neu gymhwyster cyfatebol	a gofrestrwyd ar gyfer un TGAU neu ragor, neu gymhwyster cyfatebol	a enillodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol sy'n cyfateb â un TGAU neu ragor, gradd	a enillodd o leiaf un radd TGAU cwrs byr, neu gymhwyster cyfatebol	A* i C	A* i G	A* i G	dim TGAU neu gymhwyster graddeg cyfatebol	un CLM(1) neu ragor yn unig	heb ennill TGAU, TGAU cwrs byr, CLM(1) neu gymhwyster cyfatebol
Ysgol 2004/05	100	100	94	100	99	0	1	0	0	
Ardal AALI 2004/05	99	96	84	96	36	4	2	2	2	
Cymru 2004/05	97	95	76	93	52	7	3	4	4	
Ysgol 03/04/05	99	99	93	99	49	1	0	1	1	
Ysgol 02/03/04	99	99	91	99	19	0	0	1	1	

Canlyniadau TGAU mewn pynciau dethol

Canran y disgyblion 15 oed:

	a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn	a enillodd radd TGAU		a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn	a enillodd radd TGAU	
		A* i C Saesneg (2)	A* i G mewn		A* i C Cymraeg (2)	A* i G mewn
Ysgol 2004/05	95	75	95	98	83	98
Ardal AALI 2004/05	92	59	92	85	61	85
Cymru 2004/05	90	55	89	61	37	60
Ysgol 03/04/05	97	70	97	98	82	98
Ysgol 02/03/04	98	65	98	95	77	95

	a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn	a enillodd radd TGAU		a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn	a enillodd radd TGAU	
		A* i C Mathemateg (2)	A* i G mewn		A* i C Gwyddoniaeth (2)	A* i G mewn
Ysgol 2004/05	98	74	96	94	72	94
Ardal AALI 2004/05	93	52	91	92	58	91
Cymru 2004/05	91	48	87	90	48	87
Ysgol 03/04/05	99	70	97	97	76	97
Ysgol 02/03/04	99	65	96	97	73	97

Mae'r ffigyrau yn cynnwys disgyblion ar gyrsiau Youth Access a chyrsgiau tebyg

(1) Cymhwyster Lefel Mynediad

(2) I gael gwybodaeth am ba feysydd llafur sydd wedi'u cynnwys ymhob maes pwnc gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd

Cyraeddiadau TAG Safon Uwch/TAAU ac Uwch Atodol/Gyfrannol/TAAUG cyfatebol (1)(2)

Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch/TAAU neu Uwch Atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol: 53

Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch/TAAU neu Uwch Atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol a enillodd sgôr pwyntiau o:

	0	1 i 4	5 i 9	10 i 14	15 i 19	20 i 24	25 i 29	30 neu ragor
Ysgol 2004/05			4	17	13	13	11	42
Ardal AALI 2004/05	1	3	8	17	16	18	13	25
Cymru 2004/05	0	3	10	18	16	18	13	20
Ysgol 03/04/05			4	14	12	17	16	35

Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch/TAAU neu uwch atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol a enillodd 2 neu ragor o Safonau Uwch neu gymwysterau cyfatebol ar raddau:

	A-C	A-E	Sgôr pwyntiau cyfartalog pob disgybl a gofrestrwyd am 2 neu ragor o Safonau Uwch/TAAU neu Uwch atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol
Ysgol 2004/05	77	98	26
Ardal AALI 2004/2005	70	95	22
Cymru 2004/2005	68	94	20
Ysgol 03/04/05	80	97	25

Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd ar gyfer llai na 2 arholiad Safon Uwch TAAU neu Uwch Atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol: 9

Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd ar gyfer llai na 2 arholiad Safon Uwch/TAAU neu Uwch Atodol/gyfrannol/TAAUG cyfatebol a enillodd sgôr bwyntiau o:

	0 i 4	5 i 9	10 i 15	sgôr pwyntiau cyfartalog pob disgybl
Ysgol 2004/05	78	22		3
Ardal AALI 2004/05	75	19	6	3
Cymru 2004/05	74	21	5	3
Ysgol 03/04/05	68	32		4

(1) Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch (TAAU) a Thystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch Gyfrannol (TAAUG).
(2) Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys Tystysgrif Genedlaethol na Diploma BTEC

Adroddiad gan Gareth Wyn Roberts
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Hydref 2005

Cymwysterau galwedigaethol (1)

Canran y disgyblion 15 oed y dyfarnwyd GNVQ neu NVQ iddynt gan rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005

	Rhan 1 GNVQ Sylfaen	GNVQ Sylfaen neu NVQ Lefel 1	Rhan 1 GNVQ Canolradd	GNVQ Canolradd neu NVQ Lefel 2
Ysgol 2004/05				

Nifer y disgyblion 17 oed y dyfarnwyd GNVQ neu NVQ iddynt gan rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005

	GNVQ Canolradd neu NVQ Lefel 2	NVQ Lefel 3
Ysgol 2004/05		

Sgiliau Allweddol

Nifer y Sgiliau Allweddol a ddyfarnwyd i ddisgyblion 15 oed rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005

	Cymhwysio Rhif	Cyfathrebu	Technoleg Gwybodaeth
Ysgol 2004/05	0	0	0

Nifer y Sgiliau Allweddol a ddyfarnwyd i ddisgyblion 17 oed rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005

	Cymhwysio Rhif	Cyfathrebu	Technoleg Gwybodaeth
Ysgol 2004/05	0	7	0

(1) Mae Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch (TAAU) a Thystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch Gyfrannol (TAAUG) wedi eu cynnwys gydag arholiadau safon uwch/uwch atodol

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd saith o arolygwyr gyfanswm o 27 diwrnod arolygu yn yr ysgol ac arsylwyd 53 o wersi. Yn ychwanegol at hyn, ymwelwyd â thrawstoriad o gyfnodau cofrestru, gweithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio ac addoliadau ar y cyd boreol. Trefnwyd cyfweiliadau gydag aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, penaethiaid adrannau a thiworiaid blwyddyn, ynghyd ag aelodau o staff, gan gynnwys staff cynorthwyol sydd â chyfrifoldebau penodol.

Arolygwyd gwaith trawsdoriad o ddisgyblion galluog, canolig ac is eu gallu o B7 i B11 a thrawsdoriad o waith myfyrwyr B12 a B13. Ar ben hyn, gwelwyd rhagor o waith disgyblion wrth ymweld â dosbarthiadau, gweithdai a labordai. Bu trafodaethau rheolaidd am eu gwaith gyda'r disgyblion a chafodd cyfweiliadau ffurfiol eu cynnal gyda disgyblion a myfyrwyr a gafodd eu dewis i gynrychioli blynyddoedd gwahanol, gan gynnwys aelodau o Gyngor yr Ysgol.

Cafodd pob dogfen a gyflwynodd yr ysgol cyn, ac yn ystod yr arolygiad, ei dadansoddi. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn arolygiad gydag aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, y staff, y corff llywodraethol a'r rhieni. Daeth 64 i'r cyfarfod rhieni a dychwelwyd 97 o holiaduron. Daeth wyth llythyr ac wyth sylw ar yr holiadur i law oddi wrth rieni.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldeb a chyfraniad i'r Cwestiynau Allweddol
Mr Gareth Wyn Roberts Arolygydd Cofrestredig	Crynodeb, argymhellion Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 1 Cyfrannu i gwestiwn allweddol 4 a 5
Mr John Roberts Arolygwr Lleyg	Cyfrannu i gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Dr Neil T. Jones	Cyfrifoli am gwestiynau allweddol 5 a 6 Cyfrannu i gwestiwn allweddol 7
Mr Heddwyn Evans	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 7 Cyfrannu i gwestiwn allweddol 3 a 4
Mrs Susan Edwards	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 3
Mrs Gloria Davies	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 4
Mr Ieuan Jones	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 2
Mr Barry Rees	Enwebai'r ysgol
Mr Gwyn Tudur	Asesydd cymheiriaid

Contractwr Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, staff, disgyblion a myfyrwyr Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

CRYNODEB AR GYFER RHIENI

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
Ffordd Llanbadarn
Llangawsai
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3QN**

Rhif yr Ysgol: 667/4048

Dyddiad yr Arolygiad: 3 - 7 Hydref 2005

gan

**Gareth Wyn Roberts
17166**

Dyddiad: 05 Rhagfyr 2005

Dan rif contract ESTYN T/036/04

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr Adroddiad.

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn o'r ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau'n rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar unrhyw un arall a wna gais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gyfun Penweddig rhwng 3 a 7 Hydref 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr Gareth Wyn Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gyfun gymunedol ddynodedig ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol (AALI) Ceredigion yw Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth. Mae ynddi oddeutu 540 o ddisgyblion 11-16 oed a 120 o fyfyrwyr 16-18 oed.
2. Lleolir yr ysgol mewn adeiladau newydd (a agorwyd yn Ionawr 2001) ar safle yn Llangawsai, ger Llanbadarn Fawr, Aberystwyth nid nepell o'r safle a'r hen adeiladau blaenorol.
3. Mae amrywiaeth mawr yng nghefnidir economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y disgyblion. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys tref Aberystwyth (gan gynnwys ardal Cymunedau'n Gyntaf i dde orllewin y dref) ac ardal wledig eang y tu hwnt i'r dref. Mae gan 2% o'r disgyblion hawl i ginio am ddim eleni, sy'n arwyddocaol is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r holl ddisgyblion yn medru siarad Cymraeg. Mae rhai wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg tra bod y gweddill wedi derbyn addysg ddwyieithog. Daw ychydig dros 50% o'r disgyblion o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd. Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae un disgybl yng ngofal yr awdurdod lleol.
4. Sefydlwyd partneriaethau gyda'r coleg addysg bellach lleol, asiantaeth hyfforddi, masnachol, ysgol uwchradd arall yn y sir, yr Awdurdod Addysg Lleol, Llysgenhadaeth Siapan a sefydliad Eidalaidd sy'n darparu cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.
5. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae naw (oddeutu 1.3%) ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r ganran ar gyfer Cymru a'r sir. Mae 137 o ddisgyblion (tua 21%) ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol ac ar y camau "gweithredu ysgol" a "gweithredu ysgol a mwy". Dadgymhwyswyd pedwar disgybl o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae datganiadau anghenion addysgol arbennig pedwar disgybl yn cynnwys addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
6. Penodwyd y pennaeth presennol i'r ysgol ym Medi 1989. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol yn ystod tymor yr Hydref 1999. Arolygiad byr, sef lle nad adroddir ar bynciau, oedd arolygiad yr ysgol.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2005-2006 yw:

- a) cadarnhau a chynyddu nifer y disgyblion;
- b) addysgu ac addysgu - cryfhau gweithredu ar sail prosesau hunan arfarnu;
- c) gweithredu'r cytundeb Baich Gwaith a Chodi Safonau ynghyd â'r gofynion Cyflogaeth newydd;
- ch) parhau i ddatblygu ymateb yr ysgol i 'Lwybrau dysgu 14-19', gan gynyddu'r opsiynau galwedigaethol yn fewnol yn yr ysgol ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

8. Targedau'r ysgol ar gyfer 2006 yw'r canlynol:

Cyfnod Allweddol	Pwnc ayb	% lefel 5 neu uwch yn CA3
Cyfnod Allweddol 3	Cymraeg	83
	Saesneg	86.9
	Mathemateg	88.6
	Gwyddoniaeth	87.0
	Dangosydd pynciau craidd	73.6

Cyfnod Allweddol 4	Dangosydd	Canran disgyblion
	Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - C	73.9
	Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - G	91.0
	Cyrraedd y dangosydd pynciau craidd	59.8
	Gadael heb gymhwyster	0
	% absenoldebau anawdurdodedig	1.6

Crynodeb

9. Mae Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig yn ysgol dda ag iddi nifer o ragoriaethau sy'n cynnwys:
- ansawdd da iawn canlyniadau arholiadau allanol TGAU, Uwch Atodol a Safon Uwch y disgyblion a'r myfyrwyr
 - cwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg
 - ethos gwâr, Cymreig a Chymraeg
 - ansawdd da'r gofal a'r arweiniad a rydd y staff cyfan i'r disgyblion a'r myfyrwyr.
10. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 1999. Er ei fod yn cytuno â llawer o'r barnau a fynegodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, mae'r tîm arolygu wedi rhoi gradd uwch i ddau gwestiwn allweddol.

Tabl y graddau a ddyfarnwyd

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd arolygu
1. Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu?	2
3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6. Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7. Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

12. Gan mai arolygiad byr a gafodd yr ysgol, nid arolygwyd safonau pynciol ac nid adroddir arnynt.

Ansawdd canlyniadau profion ac arholiadau allanol

13. Er bod peth anwastadrwydd yn y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfnod allweddol 3, lle nad yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched mewn iaith, mae'r ysgol yn parhau i gynnal ansawdd da iawn canlyniadau arholiadau a phroffion allanol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.
14. Gwna'r disgyblion gynnydd da iawn yng nghyfnod allweddol 4. Yr un modd, gwna'r myfyrwyr gynnydd da iawn yn y chweched dosbarth.
15. Mae canlyniadau'r ysgol mewn profion ac arholiadau cyhoeddus yn aml yn dda neu'n dda iawn o'u cymharu â rhai Cymru gyfan, Ceredigion a chanlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r cryfderau hyn yn fwy amlwg yng nghyfnod allweddol 4, lle mae cymariaethau gydag ysgolion sydd yn yr un grŵp, o safbwynt y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, yn gosod yr ysgol yn y chwarterl uchaf. Yn 2005, cafodd pob disgybl yn B11 gymhwyster. Mae canlyniadau'r chweched dosbarth yn rhagoriaeth.

Safonau a arsylwyd yn y dosbarth.

16. Dengys y tabl isod safonau'r disgyblion a'r myfyrwyr yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach. Cyflawna'r disgyblion a'r myfyrwyr yr un safonau yn y medrau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Medr Allweddol	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Y Chweched Dosbarth
Siarad	2	2	1
Gwranddo	1	2	1
Darllen	1	1	1
Ysgrifennu	2	2	1
Rhifedd / Cymhwyso rhif	2	2	2
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3	2	2
Medr allweddol ehangach			
Datrys problemau	2	2	1
Gwella dysgu eu hunain	3	3	2
Cydweithio	1	1	1

17. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda, ac erbyn y chweched dosbarth mae safon hyfedr dwyieithrwydd y myfyrwyr yn rhagoriaeth.
18. Mae cynnydd y disgyblion a'r myfyrwyr yn eu dysgu yn dda yng nghyfnod allweddol 3 ac yn dda iawn yn CA4 a'r chweched dosbarth. Mae disgyblion o bob gallu yn caffael gwybodaeth a medrau newydd. Dal i ddatblygu mae eu deall o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella ac nid ydynt bob amser yn datblygu lefel uchel o annibyniaeth yn eu gwaith. Fel arall, maent yn datblygu medrau creadigol, personol, cymdeithasol a dysgu da iawn.

19. Gyda mân eithriadau, mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau gyda'u gwaith. Dangosant barch at farn a chredoau ei gilydd ac at ddaliadau pobl sy'n wahanol iddynt hwy.
20. Gyda rhai eithriadau, mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac ymddygiad y myfyrwyr yn dda iawn yn y dosbarth ac mae hyn yn creu amodau gwaith da. Mae eu hymddygiad o amgylch yr ysgol yn dda.
21. Roedd lefelau presenoldeb yn ystod y flwyddyn ysgol 2004 – 2005 (tua 90%) yn is na chanran presenoldeb y disgyblion yn yr arolygiad blaenorol ac yn is na'r targed a osodir ar ysgolion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef 92%. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, cyrhaeddodd yr ysgol darged y cynulliad ar gyfer canran presenoldeb, sef 92%.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant ac asesu

22. Cafodd ansawdd yr addysgu yn yr holl wersi ei farnu fel a ganlyn.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	58%	17%	4%	0%

23. Mae'r canrannau uchod yn rhagori ar y targedau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef bod ansawdd yr addysgu yn radd 3 neu well mewn 95% o wersi ac yn radd 2 neu well mewn 50% o wersi.
24. Ar ei orau, mae ansawdd yr addysgu yn un o ragoriaethau'r ysgol. Er hynny, mae anwastadrwydd yn ansawdd yr addysgu ar draws ac oddi mewn i bynciau yng nghyfnod allweddol 4.
25. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:
 - disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad, sy'n cymell a herio disgyblion unigol yn unol a'u hoedran, gallu a dealltwriaeth;
 - ffurfio perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion sy'n hybu'r dysgu;
 - sicrhau y caiff pob disgybl barch fel unigolyn gwaeth beth fo'i allu, rhyw, hil neu anabledd.
26. Yn ogystal, mae llawer o nodweddion da yn cynnwys:
 - cynllunio effeithiol sy'n gosod amcanion eglur y mae'r disgyblion yn eu deall;
 - gwybodaeth bynciol drylwyr;
 - defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau dysgu sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol y disgyblion;
 - cwrdd ag anghenion ieithyddol y disgyblion, gan gynnwys cynnig darpariaeth addysgu ddwyieithog.

27. Mewn ychydig o wersi mae rhai diffygion, megis:
- athrawon yn cael trafferth cynnal diddordeb a chwilfrydedd disgyblion ar bob achlysur;
 - diffyg cyfle digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol;
 - athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig, a chyfleoedd prin i ddisgyblion i ofyn cwestiynau.

Asesu

28. Bodlona'r ysgol ofynion statudol ar gyfer asesu yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a chydymffurfir â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion addysgu ychwanegol. Mae'r gweithdrefnau ysgol gyfan a'r trefniadau safoni o fewn adrannau yn sicrhau cysondeb wrth asesu profion, arholiadau a gwaith cwrs.
29. Caiff gwaith ei farcio'n gywir a chyson ond mewn nifer arwyddocaol o achosion nid yw'r marcio yn dangos i ddisgybl sut i wella ei waith. Mae anghysondeb yn y defnydd a wna'r adrannau o asesu fel arf i wella'u dysgu ac nid yw sgiliau hunan asesu'r disgyblion yn ddigonol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn y chweched dosbarth, mae gan y myfyrwyr syniad da o sut i asesu eu gwaith.
30. Caiff rhieni a gofalwyr un adroddiad ar ddiwedd blwyddyn academiaidd a chyfle i dderbyn adborth ar gynnydd eu plant mewn noson rieni. Ysgrifenna'r athrawon sylwadau unigol ar waith y disgyblion ac, o'r herwydd, mae'r adroddiadau'n rhai personol. Maent yn amrywio, fodd bynnag, ym manylder y sylwadau a gynigir ac yn ansawdd a pherthnasedd y targedau a osodir ar gyfer gwella.

Y profiadau dysgu

31. Mae profiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagoriaeth. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn dda iawn; maent yn manteisio ar gwricwlwm eang, cytbwys a hyblyg. Cyfoethogir llawer o brofiadau dysgu'r disgyblion a'r myfyrwyr yn arwyddocaol drwy'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir yn yr ysgol a thu allan. Daw'r disgyblion a'r myfyrwyr i ddysgu llawer am fyd gwaith.
32. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag ysgolion cynradd lleol, ysgol uwchradd arall yn y sir, y colegau addysg bellach ac uwch lleol, a'r gymuned ehangach, gan gynnwys cyflogwyr lleol, Gyrfa Cymru, cwmni hyfforddiant masnachol a'r awdurdod addysg lleol. Mae ganddi gysylltiadau da gyda rhieni sy'n cyfrannu'n hael i goffrau'r ysgol.

Y gynhaliath a dderbynia'r disgyblion a myfyrwyr

33. Mae gan yr ysgol bolisiau cyfle cyfartal priodol a threfn glir sy'n cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bawb a chyfle da iddynt gyflawni eu potensial. Mae effeithiolrwydd y strategaeth cynhwysiad cymdeithasol ac ansawdd y gefnogaeth fugeiliol ac academiaidd a gynigir i'r holl staff yn nodweddion rhagorol.

34. Sefydlodd yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau i geisio sicrhau lefel presenoldeb uchel. Cymhlethwyd y sefyllfa yn ystod y flwyddyn 2004 – 2005 gan broblemau yn ymwneud â'r drefn gofnodi presenoldeb. Adolygwyd y rhain yn ofalus, a bellach mae gweithdrefnau newydd yn eu lle.
35. Mae gan yr ysgol drefn effeithiol i ddathlu cyflawniadau academaidd a bugeiliol y disgyblion a'r myfyrwyr, y tu mewn a thu allan i'r ysgol.
36. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a'r myfyrwyr yn dda iawn.
37. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol i ymdrin ag ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.
38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol yn rhagoriaeth. Mae'r ddarpariaeth hon yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r cynlluniau addysg unigol a baratoir ar gyfer y disgyblion hyn yn rhoi arweiniad clir i'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ar yr hyn y mae angen i'r disgyblion ei wneud er mwyn cyflawni eu targedau.

Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol

39. Mae nodau ac amcanion yr ysgol wedi eu seilio ar werthoedd o gyd - barch a chyd - werth. Mae gweledigaeth ac arweiniad y pennaeth yn sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn sylfaen i weithrediad polisiau'r ysgol o ddydd i ddydd.
40. Mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn rhagorol ac yn cyfrannu'n sylweddol at fonitro ac arfarnu, cynllunio a chyflwyno newid a chreu hinsawdd o ofal a chefnogaeth i'r disgyblion a'r myfyrwyr.
41. Mae'r rheolwyr canol yn arwain a rheoli eu hadrannau'n effeithiol, gan arfarnu eu gwaith yn dda ac yn cynllunio'n strategol ar gyfer ei wella.
42. Mae gan yr ysgol weithdrefnau da i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae'n bodloni'n llwyr y gofynion statudol o ran cydraddoldeb hiliol, anabledd a disgyblion sydd mewn gofal.
43. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr iawn i fonitro perfformiad y staff. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i lunio'r rhaglen ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio'n effeithiol gyda'r rheolwyr canol i gyflawni'r targedau perfformiad adrannol. Ni lwyddodd y gweithdrefnau rheolaethol, fodd bynnag, i sicrhau bod holl flaenoriaethau ysgol gyfan yn cael eu gweithredu'n gyson ac ni sicrhawyd bod yr arferion da a welir mewn rhai adrannau yn cael eu gweithredu drwy'r ysgol.
44. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n rhagorol.

Ansawdd hunan arfarnu

45. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn mynd i'r afael, yn wrthrychol a theg, â saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae'r ysgol wedi darparu barn gyffredinol ac wedi nodi nodweddion da a rhagorol, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae ffynonellau tystiolaeth yn cael eu nodi yn yr adroddiad ond ni ddyfynnir yn fanwl o'r ffynonellau hyn i gyfiawnhau barn neu radd yn yr adroddiad.
46. Mae arsylliadau uniongyrchol, y prosesau adolygu adrannol, monitro hanner tymhorol a phrosesau monitro adrannol, yn cyfrannu'n dda iawn at ymwybyddiaeth rheolwyr o'u meysydd cyfrifoldeb.
47. Caiff canlyniadau profion ac arholiadau eu dadansoddi'n drylwyr, a'u defnyddio i ddatblygu cryfderau ac i wella unrhyw wendidau. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau i sicrhau atebolrwydd adrannau am ganlyniadau a pherfformiad wedi eu llawn ddatblygu.
48. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar brosesau ymgynghori llawn, ar bob lefel yn yr ysgol, yn sicrhau bod y staff yn perchnogi'r trefniadau arfarnu a'u canfyddiadau. Mae'r ysgol yn ymgynghori'n llawn gyda rhieni wrth arfarnu rhai agweddau o'i gwaith. Serch hynny, nid oes trefniadau rheolaidd a systematig i ganfod barn rhieni na barn eraill sydd â diddordeb.

Y defnydd o adnoddau

49. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau da ym mhob maes o'r cwricwlwm. Caiff yr athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w prif faes gynhaliadaeth dda. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cefnogi'r athrawon a'r disgyblion yn dda iawn.
50. Mae'r adnoddau ar gyfer addysgu'n dda. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau o ansawdd da i alluogi'r athrawon i addysgu a'r disgyblion a'r myfyrwyr, yn eu tro, i ddysgu'n effeithiol. Mae gan yr ysgol rwydwaith gyfrifiadurol ysgol gyfan ac mae'r gymhareb yn un cyfrifiadurol i bob chwe disgybl. Serch hynny, erys prinder offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ymateb yn ddigonol i'r galw cynyddol oddi wrth athrawon pwnc i'w ddefnyddio.
51. Mae ansawdd yr adeiladau'n rhagorol a chânt eu cynnal a'u cadw'n dda gan y cwmni masnachol sy'n berchen arnynt. Mae'r bartneriaeth waith dda a sefydlwyd rhwng yr ysgol a'r cwmni yn caniatáu iddynt gyd-drafod materion sy'n codi o dro i dro, megis ethos Cymraeg yr adeilad.
52. Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae'r cynllunio ariannol, y gweinyddu a'r rheoli yn gryfderau arwyddocaol. Serch hynny, yn y flwyddyn ariannol gyfredol penderfynodd y Corff Llywodraethu, gyda chefnogaeth yr Awdurdod Unedig, fabwysiadu cyllideb oedd yn caniatáu diffyg cynlluniedig o £47,000, er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol. Nid yw hyn yn cael ei gydnabod fel arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio.

53. Mae ansawdd da canlyniadau profion ac arholiadau allanol, safonau da cyflawniad ac ymddygiad y disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd dda iawn a gofal da iawn y disgyblion a'r myfyrwyr, yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

- A1. gynnal y safonau da a da iawn a gyflawnwyd, gan roi sylw arbennig i godi safonau hunan asesu ac annibyniaeth y disgyblion, a safonau iaith bechgyn yng nghyfnod allweddol 3;*
- A2. gynyddu presenoldeb a sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi'n gyflawn;*
- A3. sicrhau bod gweithdrefnau rheolaethol yn arwain at fwy o gysondeb ar draws adrannau, yn enwedig o ran gwella a chysoni ansawdd yr addysgu ac asesu er mwyn gwella'r dysgu;
- A4. barhau i hyrwyddo hunan asesu'r disgyblion fel arf i hyrwyddo'r addysgu a dysgu ac i godi safonau; *
- A5. barhau i ddatblygu hunan arfarnu ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel adrannol, gan gynnwys adeiladu ar y broses ymgynghori a sefydlwyd gyda'r rhai sydd â diddordeb yn yr ysgol.*

* Mae'r Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer 2005-2006 neu Ddogfen Hunan Arfarniad yr ysgol yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am addasu ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad hwn, gan ddangos beth mae'r ysgol yn mynd i'w wneud ynglŷn â'r argymhellion. Anfonir y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i bob rhiant yn yr ysgol.